YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—Paul.

TACHWEDD, 1872.

DADGYSSYLLTIAD.

Yn ddiammeu mai dyma'r pwnc a dynna y'mhen ychydig amser weithian fwyaf o sylw trigolion y wlad hon. Ymgynyga i feddyliau dynion fwy fwy bob blwyddyn, ac nid yw ryfedd. Ni fydd yn bosibl i'r wlad fyned y'mlaen lawer pellach heb osod terfyn yn gyntaf ar Stâd-eglwysyddiaeth, oblegid mae'r cyssylltiad halogedig rhwng Crist-'nogaeth â'r Stâd—rhwng Duw a Cæsar—nid yn unig yn rhwystr ar ffordd Crist'nogaeth ei hun i fyned y'mlaen â'i gwaith yn y byd, ond hefyd yn rhwystr ar ffordd pob diwygiad gwladol. Pwy y'mhob gwlad sydd wedi, ac yn gwrthwynebu, fraich ac ysgwydd—pob mesur o ryddid—pob cynyg at dderchafu y werin i'r pwer a'r dylanwad sydd yn wir eiddo iddi, ond offeiriaid y stâd-eglwys. Ni welwyd erioed nemawr o esgobion nac offeiriaid yn rhestr y diwygwyr. Maent hwy yn wastad a'u whynebau yn erbyn pob diwygiad. Rhwystro rhyddid yw eu gwaith hwy—*drags* ydynt ar olwynion cerbyd y stâd, ac mae'r *drags* o'r diwedd wedi myned yn gymmaint o rwystr i flaenfynediad y cerbyd nes yw y ceffylau yn methu ei syflyd o gwbl. Paham mae Stâd-eglwysiaeth yn rhwystr i bob cynyg rhyddfrydawl? A oes rhyw beth yn natur offeiriad yn fwy na dyn arall ag sydd yn wrthwynebol i ryddid gwladol? Nac oes dim. Mae'r natur ddynol mewn offeiriad cystal ag mewn rhyw un arall o blant Adda. Os pechod yr hen dad yw'r achos o lygriad ein nhatur, nid yw ei wreiddiau yn ddyfnach yn nghyfansoddiad offeiriad nag yn nghyfansoddiad dynion eraill. Y gyfundrefn Stâd-eglwysol yw'r achos. Mae yn ddigon i lygru cyfan-

soddiad angel chwaethach dynion. Hi sydd yn creu casineb mewn offeiriad at ryddid. Mae yn gydwybodus na all rhyddid y werinos a Stâd-eglwys byth gydfodoli. Os yw un i fyw, mae yn rhaid i'r llall farw. Mae eu helfenau mor groes idd eu gilydd ag yw dw'r i dân. Nid ydym gan hyny yn beio ar yr offeiriad yn gymmaint ag ar y gyfundrefn sydd yn ei wneuthur y peth yw. Symuder yr achos ac fe dderfydd yr effaith. Dileer Stâd-eglwysiaeth a daw ei hoffeiriaid i garu ac i amddiffyn rhyddid gwladol a chrefyddol gydâ chymmaint yni ag y maent yn awr yn ei gashau.

Dywedasom fod dadgyssylltiad a diwaddoliad hefyd yn ymgynyg fwy fwy bob blwyddyn i sylw y wlad. Mae yn dod i deimlo yn ddwysach bob blwyddyn yn y mater. Mae y teimlad i gynhyddu mewn dwysder hyd nes yr aeddfedo y pwnc, ac yna cyfyd ymrafael oddifewn ac allan i'r Senedd na welwyd o'i fath oddiar amser cynhwrf y *Reform Bill.* Bydd yn ymdrech hir a chaled, ond yn ddiammeu eiddo cyfeillion dadgyssylltiad fydd y fuddugoliaeth yn y diwedd. Y bobl sydd wedi gorchfygu y'mhob ymdrech, a hwy a orchfygant eto yn yr un ddyfodol. Mae'r frwydr wedi dechreu mewn prysurdeb. Dichon fod rhai o'n darllenwyr yn gwybod i gyfarfod o bleidwyr dadgyssylltiad gael ei gynal ar y dydd cyntaf o'r mis diweddaf yn Birmingham. Daeth yno y'nghyd o lawer parth ddynion pwyllog, goleuedig, penderfynol, a dewr, ac yn eu plith *Mr. Miall.* Taflasant dremiad helaeth a manwl dros faes y frwydr ddyfodol. Cymerasant bob peth dan ystyriaeth—grym amddiffynfa y gwrthwynebwr fel ei fanau gweinion, y'nghyd a'u grym a'u gwendid eu hunain. Nid oedd yno ddim ymffrost—dim gair chwaith yn erbyn yr Eglwys fel enwad Crist'nogol, ond yn unig fel sefydliad gwladol. Teimlai pawb yno mai nid ymdrech fydd rhwng Anghydffurfiaeth â Stâd-eglwysiaeth, ond ymdrech rhwng Stâd-eglwysiaeth â rhyddfrydwyr yr holl deyrnas—Anghydffurfwyr, neu beth bynag y b'ont. Yr oedd hyd yn nod eglwyswyr yn y cyfarfod. Ni lefarodd neb yno yn well a mwy penderfyniadol na Mr. Cox o Belper, er ei fod yn aelod o'r Stâd-eglwys. Rhagarwydd tra nodedig oedd hyn. Mawr mor llym y dynoethodd Mr. Cox yr arfer waradwyddus yn yr Eglwys o werthu personaethau. Sylwodd fod yn agos i chwech cant o hysbysiadau o'r fath yn mis Medi diweddaf. Er mwyn denu prynwyr, meddai, crybwyllid amryw nodweddiadau dymunol gan offeiriaid. Am rai personaethau sylwid fod cyfeillach dda *(good society)* yn y gymydogaeth. Am bersonaeth arall crybwyllid ei bod mewn lle tra dymunol i bysgotta—nid fel Pedr gynt i bysgotta dynion, ond i bysgotta brillithod. Personaethau eraill oeddynt yn ffafriol i hela—y bytheuaid yn cyfarfod yn fynych yn y gymydogaeth. Yr oedd un bersoniaeth, nid yn unig yn lle da i bysgotta a hela, ond hefyd yn werth 600p. yn y flwyddyn. Pris hon oedd 8500p. Am bersoniaeth tra dymunol arall awgrymid fod yr offeiriad presenol yn 80 oed, ac na fyddai yn hir amser wrth gwrs cyn *landio* yr ochr draw i'r "Iorddonen ddu." Yr oedd personaeth yn *Shropshire,* mae yn debyg, na chynhwysai ond 1700 o drigolion, a gwasanaeth unwaith bob pythefnos. Nid oedd yr hysbysiad yn dyweyd faint o'r 1700 oedd yn Ymneillduwyr. Er fod offeiriad personaeth arall ond 53 oed, yr oedd yn wael ei iechyd, am hyny yn debyg o

"ymestyn y goes" cyn pen ychydig amser. Yr oedd un bersonaeth yn werth 800p. yn y flwyddyn. O bum' cant a phedwar-ugain a phedair-ar-ddeg o bersonaethau ar werth nid oedd un heb ryw fantais neu gilydd. Sylwodd Mr. Cox yn ei araeth fod yr arfer o werthu personiaethau yn beth mwy cyffredin yn y Stâd-eglwys nag y mae llawer yn feddwl, oblegid cymerir gofal mawr i gadw'r fasnach mor ddirgel a fyddo'n bosibl.

Ni fu arfer mwy gwarthus na hon yn ein byd ni erioed. Lles crefyddol ac eneidiol dynion yn cael ei werthu i'r uwchaf ei geiniog! Nid rhyfedd fod anffyddiaeth yn ffynu mor helaeth yn yr Eglwys Sefydledig. Nid yw Simoniaeth, er hyny, ond un o'r niweidiau y'nglyn â Stad-eglwys Rhy faith fyddai i ni eu henwi yn bresenol. Mewn gair, mae yn llawn bryd i symud ymaith y gwarth ag y mae Stâd-eglwysi yn dynu ar grefydd, a'r unig ffordd i wneud hyny yw peri i'r Stâd i adael pob enwad i gynal a threfnu ei faterion crefyddol ei hun.

Nid ydym mor hyderus ag y mae llawer i fod dadgyssylltiad yn agos. Mae Stâd-eglwysiaeth yn hen sefydliad yn ein gwlad. O'i hochr y mae rhagfarnau oesoedd, ac anhawdd yw darbwyllo dynion i gredu nad bwriad dadgyssylltwyr yw diddymu yr eglwys ei hun. Ond er cymmaint y rhwystrau mae dedfryd Stâd-eglwysi wedi pasio. Darfod sy raid iddynt, ond ni ddarfyddant heb wneud pob ymdrech a allont i fyw. Er mai yn y Senedd y bydd yn rhaid ymladd y brif frwydr, ac efallai frwydrau lawer, mae yn ofynol defnyddio pob moddion a ellir i oleuo y werin, ac i agoryd llygaid y wlad i ganfod y niwed sydd y'nglyn â Stâd-eglwys, oblegid mae llawer o anwybodaeth a difaterwch o hyd yn ei chylch hyd yn nod y'mhlith yr Anghydffurfwyr.

Yn gymmaint ag mai yn y Senedd y bydd yn rhaid ymladd y frwydr cyn bo hir, credwn y bydd yn ddyledswydd ar bawb Anghydffurfwyr, pryd bynag y cymer etholiad seneddol cyffredinol le, ac ni wyddys ddim pa mor gynted y bydd hyny, i wneuthur eu goreu y'mhob man i ddanfon i'r Senedd ddynion a fyddo yn addaw rhoddi eu pleidlais yn y Ty yn erbyn Stâd-eglwysiaeth. Meddwl ydym y dylent lynu wrth yr egwyddor hon mor belled ag y gallont, ac i beidio ymadael â hi oni fydd perygl i Dory gael ei ddychwelyd. Pe unai yr Anghydffurfwyr a'r Rhyddfrydwyr trwy'r deyrnas ar y pen hwn, sef i beidio rhoddi eu pleidlais i neb oni addawa i bleidleisio yn y Ty dros ddadgyssylltiad, llwyddid i dorri yr undeb rhwng yr Eglwys â'r Stad yn gynt nag y mae llawer yn feddwl; ond ofni ydym fod hyn yn ormod peth i ddysgwyl yn nghyflwr presenol y wlad. Un peth sydd sicr; pwnc mawr y dyfodol fydd dadgyssylltiad.

GOFYNIADAU AC ATEBION AR IOAN I. 1—14.

GOFYNIAD.—Beth a feddylir wrth y gair "dechreuad" yn yr adnod gyntaf?

ATEB.—Dechreuad amser sydd i feddwl, am na all fod dechreuad i drag'wyddoldeb.

G.—Beth a olygir wrth y "gair" sydd yma?

A.—Y gair "bydded" yn y bennod gyntaf o Genesis yr hwn a ddefnyddia Duw

wrth greu y bydoedd. Dylid cofio yn y fan yma na welodd neb Dduw erioed fel person, yna mae Ioan yn olrhain yr achos o'r effaith, neu yn ymresymu o'r gwaith at y gweithiwr, ac yn ateb mai Duw oedd y gair. Er nad yw Duw yn weladwy fel person i neb, y mae yn ffaith ei fod yn llefaru fel person wrth bersonau.

G.—Adnod 2. A oedd gan Dduw un offeryn ond ei air yn ngweithrediad y bydoedd?

A.—Nac oedd. Hwn, sef y gair oedd yn y dechreuad gyda Duw. "Bydded" oedd yr unig offeryn a ddefnyddiodd.

G.—Adnod 3. Ai trwy ei air "bydded" y gwnaeth Duw bob peth?

A.—Ie, "trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth."

G.—A gafodd dim fodolaeth heb y gair "bydded?"

A.—Naddo. "Ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim ar a wnaethpwyd."

G.—Adnod 4. Ai yn yni y gair "bydded," neu yn Nuw yr oedd bywyd pob creadur yn y nefoedd ac ar y ddaear?

A.—Ie. "Ynddo ef yr oedd bywyd."

G.—Pa fodd mae y bywyd yn oleuni dynion?

A.—Pe na fuasai bywyd yn y gronynau a felir at fara ac yn yr ymborth a fwyta pob anifail, byddai wedi myned yn dywyllwch anobeithiol ar bob dyn a dynes am eu bywyd. Mae y lampau yma yn sicr o fod yn oleuni dynion am nas gallant fyw hebddynt yn y byd hwn.

G.—Beth a feddylir wrth y "tywyllwch" sydd yn ad. 5?

A.—Nad ydyw dynion nac anifeiliaid o'u rhan eu hunain yn meddu ar ddim bywyd neu oleuni, am hyny nis gallant fod ond tywyllwch. Ond y mae lamp Duw neu ei air yn parhau i oleuo yn nghanol y tywyllwch hwn er dechreuad amser.

G.—Adnod 6. Pwy yw y gwr hwn?

A.—Ioan Fedyddiwr.

G.—Paham y dywedir ei fod wedi ei ddanfon oddiwrth Dduw?

A.—Am i fod Duw wedi ei addaw, ac am i fod ganddo dystiolaeth bennodol oddiwrth Dduw at y byd.

G.—A ddarfu i Ioan ei chyflawni?

A.—Do. "Hwn a ddaeth yn dystiolaeth."

G.—Faint oedd cylch ei dystiolaeth?

A.—At bawb. "Fel y credai pawb trwyddo ef."

G.—Adnod 9. Beth a feddylir wrth y gwir oleuni?

A.—Unig ffynonell bywyd ei hun ydyw. O'r man yma y derbynia pob creadur ei gysuron. "Hwn sydd yn goleuo pob dyn ar sydd yn dyfod i'r byd."

G.—Adnod 10. A oedd y byd wedi myned mor ddall nad oedd yn adnabod y gair neu y Duw yma.

A.—Oedd. "A'r byd nid adnabu ef."

G.—A oedd Duw neu yni y gair "bydded" yn y byd bob amser?

A.—Oedd. "Yn y byd yr oedd efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef."

G.—A ddarfu i'r byd golli ei adnabyddiaeth o'r gair neu allu Duw yr hwn oedd mor amlwg?

A.—Do. "A'r byd nis adnabu ef."

G.—Adnod 11. Pwy sydd i'w ddeall wrth "ei eiddo ei hun?"

A.—Y teulu dynol oll. "Canys felly y carodd Duw y byd."

G.—Beth sydd i'w ddeall wrth yr ymadrodd, "At ei eiddo ei hun y daeth?"

A.—Dyfod yn y cnawd. "Myfi a'r Tad, un ydym."

G.—Pa dderbyniad a gafodd y "gair" wrth ddyfod yn y dull hwn? A ddarfu i bawb ei dderbyn?

A.—Naddo neb, ond "ei eiddo ei hun."

G.—Beth gafodd y rhai a'i derbyniasant?

A.—Efe a roddes allu iddynt i fod yn feibion i Dduw.

G.—Beth oedd y gallu hwn?

A.—Y dawn gwyrthiol, neu allu i wneuthur yr hyn ni allai neb ond Duw ei wneuthur.

G.—Pa fodd yr oedd y gallu hwn yn gyrhaeddadwy?

A.—Trwy gredu yn ei enw ef, neu ei "dderbyn ef."

G.—Adnod 13. A oedd y gallu hwn ddim yn gyrhaeddadwy i fawrion y byd ar gyfrif ei gnawdoliaeth?

A.—Nac ydoedd, ond i'r rhai ni aned o waed.

G.—Pe fuasai rhyw un neu rai yn chwenych ei brynu am arian, am i fod arian yn ateb i bob peth, medd y gwr doeth, a fuasai arian yn ei brynu?

A.—Na fuasai.

G.—A gynnygwyd arian am y gallu hwn?

A.—Do, gan Simon y Swynwr.

G.—A gafodd Simon ef?

A.—Naddo. "Nac o ewyllys y cnawd, ond o Dduw."

G.—Ai oddiwrth y person yma y cafodd Iesu Grist y gallu oedd ganddo ef?"

A.—Ie. "Y gweithredoedd wyf fi yn wneuthur yn *enw* fy Nhad."

G.—Adnod 14. Pa beth a olygir wrth fod y "gair" yn cael ei wneuthur yn gnawd?

A.—Duw neu y gair yn gwneuthur ei ymddangosiad trwy ddyn (1 Tim. iii. 16), "Duw a ymddangosodd yn y cnawd." "Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad."

G.—A fu y person mawreddog hwn yn trigo ar y ddaear?

A.—Do. "Ac a drigodd yn ein plith ni."

G.—A oes genyt ti, Ioan, ychwaneg i ddyweyd am y person hwn?

A.—Oes. "Ac ni a welsom ei ogoniant ef."

G.—Pa fath ogoniant a welaist ti, Ioan?

A.—Gogoniant megys yr Uniganedig oddiwrth y Tad?

G.—Pwy ydyw yr uniganedig oddiwrth y Tad?

A.—Creawdwr a chynhaliwr y bydoedd.

G.—Paham y dywedir yr uniganedig ogoniant?

A.—Am ei fod y gogoniant blaenaf yn Nuw, yn ymddangos ynddo ef ar y ddaear.

G.—Yn awr, Ioan, a welaist ti y gallu o greu a chynal yn y dyn Crist Iesu?

A.—Do. Buom yn bwyta prydiau o fara a chig, filoedd o honom ar y maes agored—y bara a'r cig yn newydd eu creu ganddo. Hefyd byddai yn iachau pob afiechyd y'mhlith y bobl. Y gwir yw ei fod yn dangos gras a gwirionedd fel y Tad ei hun.

Machynlleth. JOHN ROWLANDS.

SIAMPL CRIST.

"A chyda'i Fab ef, Iesu Grist."—IOAN.

EIN cymdeithas ni gyda'i Fab Ef. Dyna gynwys hiraeth dynolryw ag sydd wedi gweled gwagedd ac anigonolrwydd pob gwrthddrych daearol. Y mae pob enaid ystyriol yn teimlo anfoddlonrwydd ar ol mwynhau danteithion mwyaf amser. Fe fydd y meddwl yn treulio llawer o amser, a hyny heb sylwi; hyny yw, y mae dyn megys yn cael ei hun mewn myfyrdod, gyda phersonau o bob math o gymeriad. Y peth cyntaf a welir mewn plentyn bywiog ydyw ei duedd i ddynwaredu ei deulu. Y mae pob aelod o'r teulu ag sydd yn fwy mewn unrhyw beth na'r plentyn yn dyfod i fod yn safon i'r plentyn. Y mae dynwarediad yn reddf yn mhob creadur byw.

Awydd ac ymestyniad am ddeall ansawdd gwrthddrychau o'n blaen ydyw cywreinrwydd. Nid oes ond un gradd oddiwrth ddynwarediad yn ol at gywreinrwydd. Fe allai mai yr un peth dan wahanol olygiadau ydyw cywreinrwydd, dynwarediad, ac ymdrech am barhad.

Y mae y plentyn yn hir iawn cyn dyfod i ddeall fod y rhinweddau dioddefol yn anhebgorol i gyrhaeddyd y cymeriad uwchaf. Am *wneud* ryw beth, am flynyddoedd, yw y wedd benaf a welwn ar weithrediad

bywyd y plentyn. Dewis y milwr, a phob un o'r dospeirth ymddangosiadol, y mae efe yn gyntaf.

Y pethau tywyllaf, anhawddaf eu deall a'u cyssoni, yn mywyd, ysbryd, a chyngorion Iesu ydyw ei anogaethau i beidio gwrthwynebu, hyd yn nod, y drwg. Deallai Paul rywfaint am weddusrwydd yr anogaethau pan y cynghorai rai i ddioddef yn hytrach gam, a phan i'w calonogi, yr adgofiai iddynt gymeryd eu hysbeilio yn llawen. "Fel yr adnabyddwyf Ef, a chymdeithas ei ddioddefiadau Ef." "Yr hwn ydwyf yn awr yn llawenychu yn fy nioddefiadau drosoch, ac yn cyflawni yr hyn sydd yn ôl o gystuddiau Crist yn fy nghnawd i, er mwyn ei gorph ef yr hwn yw yr eglwys."

Felly y byddaf fi, yn y munudau tawelaf a mwyaf goleu, yn meddwl am Iesu,—mai ei brif ragoriaeth ydoedd, y byddai yn well ganddo ef ei hun ddioddef os cadwai hyny eraill, yn enwedig bobl isaf eu moesau, rhag dioddef.

Nid yn unig peth nerthol i dynu allan ddymuniad am efelychiad ydyw siampl, ond peth ag sy'n goleuo yn eglur. Wrth i ni gymdeithasu yn ein myfyrdod â rhyw un da a mawr y gwelwn egwyddorion iawn. Fe fydd egwyddorion iawn yn enill ein cymeradwyaeth ar unwaith, fel mellt, ar darawiad amrant. Yr ydym yn cael ein cludo trwy amheuaeth y'nghylch y cwestiwn—a ydyw rhai pethau yn wirioneddol dda neu beidio—pan welwn y pethau hyny yn myned i ffurfio, mewn rhan, gymeriad ein safon.

Paham y mae cymdeithasu â chymeriad uchel yn ein tanio ac yn ein goleuo, ni wyddom ni ddim; ond *pa fodd* y mae cymdeithasu fwy yn gwneuthur, yr ydym yn teimlo yn sicr. Dangoswch i mi siampl uwch nag siampl Iesu a mi a'i gadawaf. "Byddwch chwithau, gan hyny, berffaith fel mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." Byddwch fel y Tad, fel Iesu, ac fel yr Apostolion mor bell ag y meddyliwch eu bod hwy fel Iesu.

Gwnewch gronfa ddarluniadol yn eich serch o brif siamplau pob oes mewn dyngarwch. Gosodwch Iesu yn y canol. Rhaid i ni gofio byth yr arferir yr un geiriau am bob dyn ag a arferir gan ac am Iesu. "Myfi yw goleuni y byd," medd efe am dano ei hun, yn ol Ioan. "Chwi yw goleuni y byd," medd Iesu am ei ddisgyblion, yn ol Matthew. "Yn mhlith pa rai yr ydych yn dysgleirio megys goleuadau yn y byd," medd Paul am rai o'r un farn ag ef am rinwedd.

Galwer anogaethau fel yna yn oer mewn cymhariaeth i ddiolchgarwch efengylaidd—sef y bu Iesu farw yn ein lle—os myn yr uniongred, ond o ymdebygoliad i Iesu, yn y diwedd, y mae pob concwest grefyddol yn dyfod. "A hyn yw ewyllys Duw, sef eich sancteiddiad chwi"—ydyw paham a pha fodd mae pob golygiad ar drefn Duw i berffeithio dyn.

Cael bod yn ein meddwl yn awr, ar y ddaear, ac yn y nefoedd, yn myd yr ysbrydoedd, mewn rhyw ystyr newydd, yn amgylchynedig gan fodau ysplenydd, buddugoliaethwyr yr hil, buddugoliaethol drwy boen, ydyw'r dychymyg uwchaf a feddwn ni am gyflwr dedwydd. Fe effeithia presenoldeb cwmpeini o saint yn myd yr ysbrydoedd bleser anrhaethadwy i'r trigolion. Fe fydd ein hyfrydwch yn esgyn i fynu ar hyd, megys, ddring-radd teimlad, yn ol mesur mawredd cymeriadau

y preswylwyr. Ond y mae y Cristion, o'i ddygiad i fynu yn ngwledydd cred, yn disgwyl am yr hyfrydwch penaf oddiwrth weled Iesu, ei glywed, ymddiddan ag ef, a'i *goleddu*, medd y bardd Saesonaeg,—

"Hear his voice, see his face
And feel his infinite *embrace.*"

Mae mor sicr ag y gall fod peth o'r natur, fod miliwnau o ddynolwyr yn ddyledus i John Howard am ffrwd o deimladau gorfoleddus. Pan y ceisiwn ddychmygu pa nifer o fyfyrwyr, drwy'r blynyddoedd, o farwolaeth Howard hyd yn awr, sydd wedi mwynhau y llawenydd puraf a mwyaf tangnefeddus, yr ydym yn cael cipolwg ar werth esiampl dda. Pwy all anghofio y dywediad fod—gwaed merthyron yn hâd yr eglwys!

Cael bod yn berffaith ryw bryd fel Duw ein "Tad yn y nefoedd" ydyw cyrhaeddiad pellaf possibl, hyd y nod angylion. Nid yw yr uniongred a minnau yn gwahaniaethu ond yn unig yn null y cyrhaeddiad. Beth a fynent hwy fwy nag adferiad delw Duw? Yn wir, dyna ydyw dyben deiliaid holl grefyddau y byd.

Nid oes gan neb yn y byd ychwaith ddull ac offerynoliaeth wahanol i'r Undodiaid Crist'nogol, sef cymdeithasau â dyoddefiadau, a chroes Crist. *Paham* y mae pethau fel y maent—a attebir gan Drindodiaid yn wahanol i ni. Cychwyn y maent hwy o Benarglwyddiaeth gras, a ninnau o egwyddorion angenrheidiol o fod, sef fod yn rhaid i'r da lwyddo yn ddieithriad yn y diwedd, ac mai disgyblaeth ydyw y *pa fodd*, y moddion, i gyrhaeddyd y pwrpas tragwyddol sy'n rhedeg trwy'r oesoedd. Rhaid i bob disgybl mewn pob celfyddyd a galwedigaeth gael safon, delw, a rheolau. Esiampl Crist'nogion oll ydyw Mab Duw, Mab y Dyn. Ond ni fyddai, hyd y nod dduwioldeb yn grefydd i'r uniongred pe na bae dirgelwch yn ei amgylchu. Gwell gan ereill symlrwydd yn mhob peth, yn Nuw, ei waith, ei amcan, ei foddion. Yr un ydyw moddion gras sydd gan yr holl wahanol sectau, bron. Ceisio sefydlu ein tuedd foesol, lywodraethol, ar Iesu, y mae yr holl enwadau. Gallwn oll arfer yn gywir eiriau y bardd,—

Chwilio am danat addfwyn Arglwydd,
Mae fy enaid yma a thraw,
Teimlo 'mod i'n berffaith ddedwydd,
Pan yr ydwyt ti gerllaw.
Gwedd dy wyneb,
Yw fy mywyd yn y byd.

Birkenhead. B.

PLANT BELIAL.

Mr. Golygydd,

A fyddwch chwi cystal a dyweyd trwy gyfrwng yr Ymofynydd, pwy oedd *Belial*, gan i fod plant iddo? Rhoddai hyny foddhad mawr i mi ac ereill.

Ydwyf hen wr, Evan Lewis, 88 oed.

Gair yw *Belial* a arferir mewn amryw fanau yn yr Hen Destament mewn rhagor nag un ystyr. Gair Hebraeg ydy heb ei gyfieithu i'n

iaith ni, y Cymru. Honna y geiriadurwyr Hebraeg ei fod yn gyfansoddedig o ddau air yn yr iaith hono, sef o BLI yr hwn sydd yn meddwl *dim*, a IAAL, ystyr yr hwn, meddir, yw *defnyddioldeb*, oblegid nid ydym yn gwybod fod y fath air yn y Beibl Hebraeg. Mae yr enw *Belial*, gan hyny, meddant, yn meddwl peth *diddefnydd, gwael, diles*, a *drwg*.

Ein barn ni yw—ac y mae genym gymmaint o hawl i farnu am air Hebraeg ag sydd gan grydd i roddi ei farn am esgid, neu wëydd am wlanen—fod y geiriadurwyr Hebraeg wedi gwneuthur camsynied ynghylch tarddiad y gair *Belial*. "Beth ydych chwi ynte yn ddyweyd yw ei darddiad?" Ein barn ni yw ei fod yn deilliaw o ddau air Hebraeg arall, sef o *Bel* a *iael*. Yr un gair yw *Bel* yn ddechreuol â'r eilun-dduw a elwid *Baal*. Eilun ydoedd *Bel*, fel *Baal*, a addolid gan y Babyloniaid. Gwel Isaiah xlvi. 1; Jeremiah l. 1, a manau eraill yn y Beibl nad ydym ar y fyned yn cofio am danynt. Ystyr y gair Hebraeg *iael* yw gafr (Salm civ. 18). Am hyny, y cyfieithad llythrenol o'r gair *Belial* fyddai Bel-yr-afr. Mae tarddiad y gair, os ydym yn iawn, yn dangos fod y duw Bel a addolid yn Babylon, yn cael ei addoli gan drigolion Canaan, a chan Iuddewon eilunaddolgar, fel delw ar lun gafr. Beth oedd y berthynas a feddylid fod rhyngddo â'r creadur blewog hwnnw, nid oes neb yn awr all ddyweyd, mwy nag y gellir dyweyd pwy berthynas oedd rhwng yr eilun-dduw Dagon â physgodyn, er hyny yr ydys yn sicr fod trigolion Canaan yn cyssylltu Dagon â physgodyn, oblegid dyna darddiad y gair. Pwy wyr, efallai fod Bel yn cymeryd i'w ben i farchogaeth weithiau ar fwch gafr, fel y dywedir i'n cydwladwr Cadwalader wneuthur unwaith pan y cododd chwant arno i weled dinas Llundain.

Ond gan nad beth am hyn, yr ydys yn sicr mai meibion Belial oedd y sawl a'i haddolent. Meibion Duw, plant Duw, gwr Duw, oedd y sawl a addolent Jehovah. Mae y gair *mab* yn cael ei arferyd yn yr Ysgrythyrau yn yr ystyr hyn, a hyny yn dra mynych, fel y mae yn wybodus i'r sawl sydd yn myfyrio ieithwedd y Beibl. Meibion Belial oedd rhai o drigolion Gibeah (Barn. xix. 22). Dynion oeddynt yn gyfarwydd ag addoliad Belial—ac am hyny yn ffiaidd eu buchedd, fel y darllenwn am danynt. Mab Belial y gelwir Nabal (1 Sam. xxv. 17, 25). Y duw hwnnw oedd gwrthrych ei addoliad. Dyn ynfyd oedd medd yr hanes. Meibion neu addolwyr Belial hefyd oedd plant Eli. Dywedir am danynt nad adwaenent Jehovah neu yr Arglwydd (1 Sam. ii. 12). Mae Hannah yn deisyf ar Eli (1 Sam. i. 16) i beidio ei chyfrif hi yn ferch i Belial, neu un o'r menywod meddw ag oeddynt yn addoli yr eilun hwnnw.

Nid yn unig mae addolwyr Belial yn cael eu galw ar ei enw, ond mae gweithredoedd drwg yn cael eu galw yn orchwylion Belial. "Aflwydd," medd y Salmydd, "a lyn wrtho," hyny yw, yn ol yr Hebraeg, gorchwyl Belial [*d'var B'li-ial*], neu weithred gwilyddus, cyffelyb i weithredoedd addolwyr Belial (Salm xli. 9). Mae y fath frawddeg yn yr Ysgrythyr ag afonydd Belial *(nachali b'li-ial)*. Mae y frawddeg yn Salm xviii. 4, ac yn cael ei chyfieithu "afonydd y fall," hyny yw, afonydd dinystriol, fel pe fyddent yn feddiant yr eilun Belial. Yn fyr,

pa le bynag yn yr Ysgrythyrau y cyfarfyddir â'r gair Belial, yr eilunddu hwn sydd i ddeall wrtho, "a meibion Belial," yw ei addolwyr.

Yn un man yn unig mae'r gair yn y Testament Newydd, sef yn ail Epistol Paul at y Corinthiaid (vi. 15), lle y gofyna iddynt, "A pha gyssondeb sydd rhwng Duw â Belial, neu pa ran sydd i gredadyn gyd âg anghredadyn? Dywedyd mae'r Apostol nad all un gyfeillach fod rhwng addolwyr Duw â dynion annuwiol ac anfucheddol, y fath ag oedd addolwyr Belial.

Cyn diweddu nid anmhriodol fyddai sylwi fod meibion gan Belial yn awr fel gynt, a merched hefyd. Mae yn wir nad oes neb yn awr mor ffoled ag addoli Belial mewn ystyr lythrenol. Yn eu buchedd yn awr mae dynion yn blant i Belial. Ei blant ef yw pawb dynion annuwiol—dynion heb ofn Duw yn eu calonau, na chariad atto. Gallwn enwi rhai o feibion Belial.

Ei feibion ef yw dynion celwyddog—dynion nag oes ganddynt un parch i'r gwirionedd y'mhellach nag y byddo o ryw wasanaeth iddynt. Os bydd y celwydd yn fwy gwasanaethgar ar y pryd, y celwydd ddewisant. Mae dynion o'r nodweddiad hyn yn ein gwlad, ac yn lled gyffredin, fel mae gwaethaf y modd. Maent y'mhlith crefyddwyr yr oes fel y'mhlith "dynion o'r byd." Nid yw eu crefydd yn cael dim effaith ar eu calonau nac ar eu buchedd. Nid yw ddim ond arfer ar y Sabboth, oherwydd fod crefydd yn gwstwm gwlad. Os bydd yn taro, dywedant gelwydd cynted â'r gwir. Meibion Belial ydynt.

Meibion Belial hefyd yw puteiniwyr, a dynion gwael eu buchedd. Dynion ydynt dan lywodraeth eu nwydau cnawdol. Nid ydynt yn edrych dim ar lygru rhinwedd menywod. Mae yn ddigon hawdd eu hadnabod yn mhob man. Maent yn fwy anllad eu hymddiddan na dynion eraill. Dynion ffiaidd ydynt, llygredig eu calon, a dinystrwyr rhinwedd y rhyw fenywaidd. Meibion Belial ydynt. Maent i'w cael hyd yn nod y'mhlith proffeswyr crefydd. Hwy sydd yn llenwi ein gwlad â phlant gordderch. Gocheled pob menyw rinweddol rhagddynt fel y pla.

Meibion Belial hefyd yw y sawl sydd yn gwneuthur anghyfiawnder. Eu lles eu hunain sydd ganddynt yn wastad yn y golwg. Ni waeth ganddynt pwy fyddo yn dioddef ond iddynt hwy gael byw. Ysbeiliant y weddw a'r plant amddifaid os y cânt gyfleusdra, ac y mae yn ddrwg meddwl fod llawer o honynt yn grefydd hyd eu llygaid. Eu holl fyfyrdod yw dyfeisio ffyrdd i ddianc y gyfraith,—oblegid nid oes arnynt ofn dim ond honno. Maent i gael yn mhlith cyfreithwyr, shopwyr, offeiriaid, pregethwyr, marsiandwyr, *Trustees*, mewn gair y'mhlith pob galwedigaeth a swydd. Meibion Belial ydynt. Mae ganddo fe lawer o feibion eraill hefyd na enwasom. Tra lliosog yw ei dylwyth yn y byd.

Pwy yw'r dyn mwyaf?—Yr hwn a wna yr hyn sydd iawn gyd â phenderfyniad anorchfygol; yr hwn a wrthwyneba demtasiwnau celyd oddifewn ac oddiallan; yr hwn a ddioddef yn siriol feichiau trymion; yr hwn sydd dawelaf yn y demestl, a'i ymddibyniad yn ddisigl ar wirionedd, rhinwedd, ac ar Dduw.

IAWNFFYDDIAETH NEU GALFINIAETH AC UNDODIAETH.

Beth mae Undodiaeth yn ddysgu?	*Beth mae Iawnffyddiaeth yn ddysgu?*
1. Mae yn dysgu mai un Duw sydd—ein Creawdwr a'n Tad ni oll.	1. Mae yn dysgu fod y Duwdod yn dri o bersonau gogyfuwch; fod pob un o'r tri yn Dduw ac yn wrthrych addoliad dwyfol. Mae gan hyny yn dysgu dynion i addoli tri duw.
2. Mae yn dysgu mai ei blant ef yw holl drigolion y ddaear—holl ddynolryw, am mai ein Tad ydyw.	2. Mae yn dysgu mai'r etholedigion yn unig sydd blant Duw neu'r Drindod, ac mai iddynt hwy yn unig mae'r Drindod yn dad. Mae yn dysgu fod pawb eraill yn golledig.
3. Mae yn dysgu mai un o'i blant oedd Iesu Grist—unig-anedig Fab Duw.	3. Mae yn dysgu mai Duw Hollalluog oedd Iesu Grist, mewn agwedd dyn ar y ddaear, am hyny ei fod o ran ei natur yn anfeidrol uwch na dyn.
4. Mae yn dysgu mai canlyn Iesu Grist yw bod yn Gristion; bod yn debyg iddo yn ein hanian; a chymeryd ein llywodraethu gan ei egwyddorion.	4. Mae yn dysgu fod yn anmhosibl i ddyn ganlyn Iesu Grist—meidroldeb i ganlyn anfeidroldeb, ac mai nid dyna beth yw bod yn Gristion. Credu yn "nhrefn yr achub," medd, yw bod yn Gristion, yr hyn er hyny ni wna ddim lles oni fyddir o nifer yr etholedigion.
5. Mae yn dysgu fod trugaredd Duw ar ei holl weithredoedd—ei fod yn trugarhau wrth bawb a geisiant ei drugaredd gan ddychwelyd o'u ffyrdd cyfeiliornus.	5. Mae yn dysgu fod ei drugaredd ar ei holl weithredoedd, ond y buasai yn cospi i dragwyddoldeb bawb o ddynolryw, hyd yn nod yr etholedigion, oni fuasai i'r ail berson trwy farw ar y groes gymeryd arno bechodau y byd, ac ateb gofynion cyfiawnder: fod ei drugaredd yn ymddangos yn unig yn nhrefn yr achub.
6. Mae yn dysgu y gall pawb o bob enwad, eglwys, a ffydd, garu Duw a chanlyn Crist, ac yn y diwedd fod yn gadwedig; er hyny fod gwirionedd cref-	6. Mae yn dysgu y gall pawb o bob enwad, eglwys, a ffydd, garu Duw a chanlyn Crist mor belled ag oedd yn ddyn; ond na fyddant yn gadwedig onid ŷnt

yddol yn gynwysedig mewn gwir adnabyddiaeth o Dduw y peth o'r pwys mwyaf i chwilio am dano.

7. Mae yn dysgu fod genym gydwybod, ac na ddylai neb gredu dim am gymeriad moesol Duw ond yr hyn a deimlwn sydd yn gyfiawn ac yn gywir.

8. Mae yn dysgu fod yn nhy ein Tad lawer o drigfanau addas i bob gradd o gyflwr moesol, ac i fod pawb yn derbyn oddiwrth Dduw yn ol eu gweithredoedd.

9. Mae yn dysgu y caiff pawb ag ydynt bur o galon weled Duw beth bynag fyddo eu syniadau crefyddol; ond mai goreu i bob dyn p'un fwyaf cywir fyddont.

10. Mae yn dysgu mai swm a sylwedd crefydd yw caru Duw, gwneuthur cyfiawnder, barn, a thrugaredd, ac ymddiried yn nhragwyddol gariad a gwirionedd yr hwn yw ein Tad ar y ddaear ac yn y nefoedd.

o nifer yr etholedigion, ac yn credu yn "nhrefn yr achub." Heb hyn nad yw credu yn Nuw a chanlyn Crist o ddim gwerth mewn cadwedigaeth dyn.

7. Mae yn dysgu fod genym gydwybod, ond ei bod yn llygredig, ac am hyny nad yw yn safon cywir mewn pethau crefydd. Safon pob gwirionedd ddylai fod athrawiaethau trefn yr achub.

8. Mae yn dysgu fod yn nhy ein Tad lawer o drigfanau, ond na chaiff neb eu haneddu ond y sawl sydd yn credu yn trefn ol yr arfaeth.

9. Mae yn dysgu y caiff pawb ag ydynt bur o galon weled Duw os byddant o nifer y sawl a arfaethwyd, ac wedi eu cael yn nghyfiawnder Crist heb eu gweithredoedd eu hunain.

10. Mae yn dysgu mai swm a sylwedd crefydd yw ymddiried yn nhrefn yr achub fel ei deonglir gan Iawnffyddiaeth. Heb hyn, nad yw gwneuthur barn a thrugaredd o fawr les i ddyn gyd â golwg ar gael myned i'r nefoedd.

Addefwn gyd â phleser fod yn awr y'mhlith y sawl a gyfenwant eu hunain yn *Orthodox* neu "Iawnffyddiog," gannoedd, os nid miloedd, yn coleddu helaethach syniadau, ac y mae eu nifer yn cynnyddu bob blwyddyn, ond y maent felly am fod yr egwyddorion Undodaidd yn effeithio ar eu deall yn ddistaw, ac hyd yn nod yn ddiarwybod iddynt. Rhywbeth nerthol digyffelyg yw Undodiaeth Grist'nogol, mae yn ymgynyg i bob dyn deallus ar ei waethaf. Nid oes ganddo fodd i'w gwrthwynebu. Ond y mae cannoedd na wyddant mai Undodiaeth ydyw, ac a synnent, os na arswydent, pe y dywedid mai Undodiaeth sydd ganddynt. Maent yn rhyddfrydol yn eu barn grefyddol i'r graddau y maent wedi llyncu egwyddorion Undodiaeth. Er hyny, er cymmaint yw nifer y sawl y'mhlith Trindodwyr ag sydd wedi gweithio eu hunain i maes o gaethiwed "Iawnffyddiaeth" bur a digymmysg, nid ydyw yr eglwysi neu'r enwadau y perthynant iddynt wedi ei diarddelu yn gyhoeddus. Calfiniaeth a threfn "yr achub" yw eu credoau proffesedig o hyd, am hyny nid ydym ni, yn y darluniad uchod, yn gwneuthur cam a'u brodyr Trindodol. Dylai pawb ddeall hefyd nad oes

gorphwysfan diogel i gael rhwng Calfiniaeth ag Undodiaeth. Ys dywedai y diweddar Mr. James, o Gellionen, na'r hwn nid oedd neb yn deall Calfiniaeth yn well, "Os yr addefwch wirionedd cynseiliau *(premises)* rhesymiaeth *Calvin*, yr ydych yn rhwym o addef ei gasgliadau. Ni fu cryfach rhesymydd erioed." Yn ei chynseiliau y mae Calfiniaeth yn wan. Y gwir yw, nid oes lle canol rhwng Calfiniaeth ac Undodiaeth. Gwnaeth *Andrew Fuller*, os nad ydym yn anghofio, ac eraill, gynyg i sefydlu athrawiaeth ganol, ond mae *Efwleriaeth* yn rhy anghysson a gwan i neb rhesymydd craff i'w derbyn. Mae yn rhwym o gwympo yn ol ar Galfiniaeth, neu ynte fyned y'mlaen i Undodiaeth; ond nid ar ben pob milltir y ceir dyn i ddeall y gwahaniaeth.

PECHOD—ANGEU.

Nid oes neb ar y sydd yn darllen y Beibl nad yw yn eithaf cyfarwydd â geiriau y prophwyd Ezekiel, "Yr enaid a becho hwnnw fydd marw."

1. Nid yw'r corph yn pechu, ac nid yw y corph yn dioddef am bechodau yr enaid. Yr enaid sydd yn pechu, a'r enaid sydd yn marw.

2. Yr enaid a becho hwnnw fydd marw, nid am bechod Adda, ond am ei bechod ei hun. Rhaid i bob pechadur farw drosto ei hun, a dioddef cosp ei bechod ei hun. Ni ddwg y mab anwaredd y Tad. Cyfiawnder y cyfiawn fydd ar y cyfiawn, a drygioni y drygionus fydd ar y drygionus. Ni fydd neb enaid farw am bechod un arall. Yr enaid a becho, hwnnw, a hwnnw yn unig a fydd marw.

3. Mae'r iaith hon yn bendant. "Hwnnw fydd marw." Nis gall edifeirwch waredu oddiwrth y farwolaeth hon. Ni all yr Iawn ei lluddias na'i didymu. Ni chyfiawnha Duw yn un modd yr euog. Yr hwn a wna ddrwg a ddioddef am y drwg a wnaeth. "Yr enaid a becho hwnnw fydd marw."

4. Nis gall y farwolaeth hon fod yn un dragwyddol. Mae pob enaid yn pechu, rhaid i bob enaid farw. Pe marwolaeth dragwyddol fyddai dirwy y gyfraith, byddai yn rhaid i bob enaid ddioddef marwolaeth dragwyddol. Ar yr olwg hyn ni allai un enaid gael ei waredu. Nid oes y fath frawddeg a marwolaeth DRAGWYDDOL i'w gweled yn y Beibl. Nid yw'r athrawiaeth yno chwaith.

5. Moesol ac ysbrydol yw'r farwolaeth hon. "Yn y dydd y bwyttai o hono, gan farw ti a fyddi farw." "Canys syniad y cnawd, marwolaeth yw." Pob enaid a becho sydd yn marw—yn marw i burdeb, i heddwch, i ddedwyddwch, i hyfrydwch cydwybod. Nid oes heddwch, "medd yr Arglwydd, i'r rhai annuwiol."

6. Oddiwrth y farwolaeth hon y mae gwaredigaeth yn yr Efengyl. Gall y marw fyw. Yr oedd y mab afradlon unwaith yn farw, ond fe ddaeth yn fyw. Yr oedd yr Ephesiaid "yn feirw mewn camweddau a phechodau," ond hwy a fywhawyd trwy Grist i adnewyddiad buchedd.

7. Bydd y waredigaeth hon yn gyffredinol. Teyrnasiad pechod a orfyddir gan ras. "Oblegid megys yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng Nghrist y bywheir pawb." Angeu, y gelyn diweddaf (a cholyn angeu yw pechod), a ddinystrir, a lyncir mewn buddugolieth, a bydd Duw oll yn oll.

CYFARFOD CWARTEROL GWYLMIHANGEL.

Cynhaliwyd hwn eleni, fel mae yn hysbys i'n darllenwyr, yn y Wig, ger Penbontarogwr, yn Sir Forganwg, ar yr ail a'r trydydd o'r mis diweddaf.

Nid yw yn arfer gyffredin wrth adrodd cyfarfodydd o'r fath hyn, drafod *philology*. Nid ydym yn gwybod am air cyfatebol yn ein hen iaith barchus ni, os nad yw geirdarddiaeth ryw beth o'r un synwyr. Rhaid i'n darllenwyr hynaws ein hesgeuluso am dro, fel y gwnaethant lawer o weithiau, oblegid mae rhyw ysbryd o'r fath yn ein cymeryd ar brydiau, ac mae arnom y pryd hwn, wedi ein taro "nes ydym yn babwr," fel mae goreu neu gwaethaf y modd.

Meddwl ydym mai ystyr y gair *Wig*, neu *Gwig*, yw maesdref neu cordref, os oes y fath air, yn fynychaf yn agos i fôr. Mae yn iaith y Saxoniaid fel yn Gymraeg, ac yn cael ei ysgrifenu *wic* neu *wyc*. Weithiau mae yn *Wick* a *Wich*, yn enwedig mewn cyfansoddiad ag enwau eraill, megys *Berwick*, *Harwich*, *Norwich*. Ni debygem ei fod yn deilliaw o'r un gwreiddyn a'r gair Lladinaeg *vicus*, sef crynodeb o dai annedd, fynychaf yn ddwy res, a heol rhyngddynt. Gwyr y sawl sy'n hyddysg mewn llenoriaeth o'r fath hyn, fod *gw* yn Gymraeg yn cyfateb i *v* y Lladinaeg ar ddechreu gair, megis *vin*-um, *gwin*; *Ven*-us, *Gwener*; *vitr*-um, *gwydr*. Felly mae *vic* yn *vic*-us yn gwneud *gwig* neu *wig* yn Gymraeg. Cymmaint a hyn am feddwl y gair.

Ni a debygem mai lle pleserus ddigon yw'r Wig, yn enwedig yn yr haf, i bawb sydd yn hoff o olygfeydd naturiol hardd. Fel glannau y môr yn gyffredin mae yn wir ei fod yn noeth, a nemawr o dyfiant coed. Mae'r tir er hyny yn gynyrchiol, ac yn talu yn dda i'r hwsmon gofalus am bob traul a llafur. Dywedasom fod yma olygfeydd hardd. Gellir canfod draw ar hyd glan yr hafn fryniau a phentrefydd—megys yn orchuddiedig gan niwl—Porthycawl, Trenewydd, Nottis, Porth-talbot, ac nis gwyddom faint. Ar yr aswy ceir trem gadduglyd ar wlad y Sais, ond yn mhell yn y terfyngylch, ac o du cefn i'r edrychwr mae mynyddoedd Morganwg, dan seiliau y rhai mae trysorau defnyddiol a gwerthfawr. Ar ddiwrnodau teg hefyd gellir gweled ugeiniau o hwyliau gwynion ar y môr, ac yn eu plith yn awr ac yn y man reftyn tywyll o fwg rhyw agerddlong yn cludo nwyddau Morganwg i borthladdoedd pell. Y dydd oeddem ni yno yr oedd y weilgi yn dawel—dim crychyn ar ei wyneb. Pwy allasai feddwl y pryd hwn iddo ychydig ddiwrnodau yn ol wneuthur y fath ddifrod ar forwyr—cyrph dau neu dri o'r trueiniaid a bigwyd i fynu ar y traeth y diwrnod hwnnw! Yn agos yma hefyd mae Southerdown—lle tra dymunol i segurwyr i rodianach yn yr haf. Nid pell hefyd mae castell *Dyndryfan*, yn awr Dunraven—hen breswylfod Llur ap Brân, a'r dewr Garadog, yr hwn am flynyddau fu yn ddychryn i lengoedd Rhufain—meistres y byd—ac a'u baeddodd, nid mewn llai na thri-ugain a deg o frwydrau. O leiaf dyna fel y dywed yr hen Iolo. Pwy wyddai yn well na'r hen fardd, pleser mwyaf yr hwn oedd deongli rhyw

> Hen femrwn crwn yn mron crino—llwyd,
> A pheth Lladin arno.

Mae'r hen gastell nodedig yn sefyll ar fryn bychan yn ymyl y môr. Nid ffol oedd amcan Llur, neu Brân—pwy bynag ddewisodd y fan. Os gwir hefyd yr hanes, nid pell o yma y gosododd Crist'nogaeth ei throed gyntaf ar dir Brydain. Beth yw mynachlogydd *Canterbury* a *York* i'w cydmaru mewn oedran i eglwysi bychain a diolwg St. Ilid a Sant Brid? Cenid yma Salmau mawl i Jehovah pan oedd y Saison yn ymgrymu i hyll-ddelwau Wodin a Thor.

Ond beth am y Cwrdd Cwarter? Yr oeddem bron anghofio ein pwnc? Adeilad bychan yw ty cwrdd Undodaidd y Wig, ac fel yr enwad, yn unigol wrtho ei hunan. Ond er fod y tŷ yn un bychan, ac yn sefyll ar fan digon noeth, oddifewn nid yw yn lle anghyssurus i addoli. Ni welsom yno ddim gwe'r copyn yn hongian wrth y gronglwyd, na chorau carpiog, na seddau yn sefyll yn gywrain ar dairtroed Yr oedd yr olwg yn dyweyd wrthym fod yr addolwyr yn gwerthfawrogi eu Sion fechan, ac yn cyfranu—rai o honynt o'u hangen—i'w gynal i fynu. O'i flaen mae mynwent, lle y gorwedd marwol weddillion llawer hen frawd a chwaer a fuont yn amser eu bywyd yn dwym gyd â'r achos. Dangosai y twmpathau ffres a welsom fod yr angeu—tynged pob dyn byw—yma yn ddiwyd wrth ei waith fel ym mhob man arall.

Am ddechreuad y gynulleidfa nid oes genym nemawr i ddyweyd. Mae yn dra hen, fel mae henaint yn ein plith ni, yn Anghydffurfwyr, ac wedi myned trwy lawer o "i fynu ac wared"—weithiau dipyn yn flodeuog er mawr lawenydd y bugail, bryd arall megys dan gwmwl, er hyny o hyd yn fyw. Yr hen yn meirw—yn myned adref at ei gwobr—heb neb efallai yn union i gymeryd eu lle, er hyny, mae meistr y winllan hyd yn hyn wedi gofalu am gael eraill ar eu hol i osod eu hysgwyddau dan yr arch. Bu amryw o weinidogion galluog a duwiol yn llafurio o bryd i bryd yn yr achos. Yr hen Lwyd o'r Drenewydd oedd un—cydoeswr Phillips o St. Clears, William Thomas o Langedeyrn, a Griffiths o Landyfân. Na'r hen Lwyd nid oedd neb yn ei oes yn gryfach a hyawdlach pregethwr. Yr ydym yn cofio yn dda am dano, ond nid yn ei ddydd goreu. Pan oedd haul ei fywyd yn dechreu gogwyddo tua'r gorllewin, gallesid meddwl na cheid neb i lanw ei le, ond nid felly y bu, cyfodod i fynu ei fab Titus, yr hwn, fel ei gyfenwydd gynt, sydd wedi llefaru am flynyddau lawer wrth Undodiaid y Wig a'r Nottis "bethau a wedd i athrawiaeth iachus," ac yn awr yn ei hen oedran mae o hyd yn parhau Sabboth ar ol Sabboth, i drafaelu at ei gorlan fechan ar deg a garw, haf a gauaf. Mae yn wir ei fod yntau yn dynesu at derfyn ei yrfa, ond na wangaloned y brodyr. Pwy wyr na ddarpara yr Arglwydd ryw weithiwr arall yn ei le yntau eto? Un ryfedd yw rhagluniaeth Duw.

"Ond beth am y Cwrdd Cwarter," medd rhyw un eto. Yn wir, nid oes genym ddim i ddyweyd ond yn agos yr un stori am bob cwrdd, nes o bosibl fod rhai o'n darllenwyr hynaws yn blino. Fe ddaeth gweinidogion ynghyd, fe bregethwyd, cafwyd cyrddau rhagorol. Dyma sylwedd pob adroddiad. Fel arferol yr oedd y pregethu yn dda, y canu yn dda, a'r darpariadau ar gyfer dyeithriaid yn dda—digon o drugareddau a digon o roesaw. Beth ddymunai neb yn rhagor? Ond tybiwn na fyddwch yn foddlon ar hyn. Yr ydych am wybod pwy oedd y gweinidogion, pwy bregethodd, b'le oedd y testynau, a pha le mae y Cwrdd Nadolig?

Mae yn rhaid i ni geisio ateb. Y gweinidogion oeddynt y parchedigion canlynol :—

Titus Loyd, Gweinidog y lle.
N. R. Williams, Merthyr.
E. W. Lloyd, Cwmbach.
W. Rees, Rhydygwin.
J. Evans, Gellionen.
I. T. Williams, Cefn.
J. Davies, Alltblaca.
D. L. Evans, Caerfyrddin.

Yn yr hwyr dydd Mercher yn gyntaf pregethodd y Parch. J. Davies. Testyn, Diar. iv. 8. Ar ar ei ol y Parch. J. Evans. Ei destyn ef oedd Deut. xxix. a'r adnod olaf.

Dranoeth dechreuwyd am unarddeg, a phregethodd y Parch N. R. Williams yn Saesneg, oddiar Iago. 17–20, Yna daeth Y BREGETH, neu fel y dywed ein brodyr y Trefnyddion Calfinaidd, er o bosibl nad ydynt yn dewis arddel y berthynas, "y bregeth ddeg o'r gloch." Y Parch. I. T. Williams oedd wedi ei appwyntio, ac ni ffaelodd ddod. Ei destyn oedd Actau xvii. 18–25.—digon hir i fod ei hunan yn bregeth fer. Sylwedd yr hen Burnet unwaith fel hyn :—"Llawer a gofiant y testyn pan na chofiant ddim arall, am hyny, dylid dewis y fath destyn ag a ddoda frawddeg bwysig ac adeiladol yn ngenau y gwrandawyr." Ond ni adawn yr hen Ddoctor i siarad fel y myno ; mae y byd yn awr ddau can' mlynedd yn henach nag oedd yn ei oes ef, ac wrth gwrs yn gallach. Ond er fod y testyn yn un maith yr oedd y bregeth yn dda.

Wedi penderfynu y Cwrdd a threfnu rhyw fater neu ddau, awd i wneud cyfiawnder â'r giniaw, ac nid anhawdd yw hyny, yn enwedig lle byddo moddion mor dda. Wedi gorphen y giniaw dychwelyd yn ol i'r capel i drafod y pwnc, "Eiriolaeth Crist," ac un arall ar ei ol, sef "Dyledswydd crefyddol rhieni Undodaidd at eu plant." Cafodd tri neu bedwar o'r pregethwyr yn awr y maes oll iddynt eu hunain—eraill o'r brodyr wedi diflanu.* Llefarwyd ar y pynciau gan Mr. David James, Pandy ; Mr. Lloyd, Cwmbach ; Mr. Rees ; Mr. Titus Lloyd, ieuanc ; a Mr. D. L. Evans. Os nad oedd pawb o'r llefarwyr yn cytuno ynghylch eiriolaeth Crist, cytunent oll fod y rhieni hyny yn feius a adawant eu plant ar y Sabboth i grwydro yn benrydd i unrhyw gapel neu eglwys a fynont, ac i fod eisiau mwy o ddysgyblaeth ac addysg gartrefol yn ein plith. Y sawl ni feddylient am adael eu plant i ddewis eu hysgol, neu eu creft, ydynt yn hollol ddifater ynghylch peth sydd yn anfeidrol mwy pwysig, crefydd. Galwant hyn ysywaeth yn rhyddid crefyddol, pan mewn gwirionedd nid yw ond penrhyddid a difaterwch. A oes dim moddion effeithiol i gael a arwain ddynion i ganfod a theimlo eu camsynied ?

Traddodwyd dwy bregeth yn yr hwyr, i gynulleidfaoedd lliosog, un gan Mr. Rees, oddiwrth Phil. i. 27, 28 ; a'r llall gan D. L. Evans, oddi-

* Deisyfir arnom i ddyweyd "Fod yn flin iawn gan hen weinidog y Wig weled rhai o'r gweinidogion ieuainc yn troi eu cefnau arno gyda bod y giniaw drosodd dydd Iau, a hyny am fod eisiau eu gwasanaeth yn dost yn y prydnawn.

wrth Matt. xi. 28, a chafwyd cyfarfod rhagorol. Aeth llawer i'w ffordd dan ddylanwad y gred nad yw Undodiaeth Grist'nogol wedi'r cyfan ddim o'r peth sych, nacaol, a dadleugar y tybir yn gyffredin ei bod, ond ffydd, gobaith, a chariad, ac mai bod yn Undodwr yw mwynhau tangnefedd yn yr Ysbryd dan bob helbul a chaledi, a gosod ymddiried yn rhagluniaeth fawr y Tad anfeidrol yr hwn sydd a'i drugaredd ar ei holl weithredoedd.

Ond y mae yn llawn bryd tynu tu â'r diwedd. Pe amcanem roddi i'n darllenwyr gynwysiad y pregethau, byddai ein ysgrif nid yn unig yn rhy faith, ond byddem yn sicr o ffaelu, gan na wyddom b'le i ddechreu nac i ddiweddu. Gobeithiwn y bydd y cyfarfod yn fendith i'r eglwys. Eisiau sydd arnom yn mhob man fwy o ymdrech o blaid yr egwyddorion a broffeswn, mwy o ffydd yn Nuw, a mwy o ysbryd Crist Iesu yn ein calonau. Duw yn ei ras a'n cyffro i lafurio yn fwy diwyd am danynt.

Penderfynwyd fod y Cyfarfod Cwarterol Nadolig i gael ei gynal gyd â'r brodyr yn y Cwmbach, ac i fod y Parch. R. C. Jones, o'r Cribin, i bregethu.

DARN UNDODAIDD SIR ABERTEIFI.

Erthygl II.

(Allan o'r *Cylchgrawn* am Hydref.)

Wedi rhoddi awgrym yn yr ysgrif flaenorol mai y Diwygiad Methodistaidd oedd y fantais oreu a gafodd ein gwlad, er rhoddi terfyn ar "ysbryd y cyfeiliorni"* yn y darn hwn, awn rhagom yn awr i ddangos sefyllfa y cyfeiliornad† ar y pryd, a pha fodd y daeth allan yn Undodiaeth broffesedig, fel ei gwelir yn bresenol. Ac i'r dyben hwnnw, nis gall wneyd dim yn well nag arwain meddwl y darllenydd yn ol at hanes y cyfeiliornad yn ei ddadblygiad graddol nes terfynu mewn Undodiaeth. Nid ydym chwaith wrth roddi y gair *terfynu* i fewn yn meddwl mai Undodiaeth yw, neu a fydd, y wedd olaf‡ ar y cyfeiliornad, dim ond dangos mai fel Undodiaeth y mae a fynom ni ag ef.

Cafodd ei ddechreuad yn y "*Ddadl fawr Arminaidd*," fel ei gelwir, a fu yn gosod tröell y naturiaeth grefyddol yn nehcudir Cymru yn fflam, tua chant a hanner o flynyddoedd yn ol. Nid oes sicrwydd am achos dechreuad y ddadl, ond y mae y rhan fwyaf o'r haneswyr yn ei gyssylltu ag athrofa bresbyteraidd Caerfyrddin. Yn y flwyddyn 1718 apwyntiwyd y Parch. Thomas Perrot, Newmarket, yn athraw i'r athrofa. Nid oes sicrwydd ei fod ef ei hun yn Arminaidd ei farn. Yr oedd yr holl fantcision a gafodd yn tueddu i'r gwrthwyneb, cafodd ei godi fynu yn hen eglwys enwog Llanybri, yn agos i Gaerfyrddin; cafodd ei addysg yn yr athrofa y bu wedi hyny yn llywydd ac yn athraw iddi, a bu hefyd dan addysg yr

---

* Yn sicr mae J. E. yn camsynied. Methodd Methodistiaeth wneuthur dim o'r fath beth. Yr un peth mewn ystyr fyddai gosod Methodist i ddysgu Duwinyddiaeth i Undodwr ag a fyddai gosod un yn yr A B C i fod yn athraw ar *glass* yn darllen y Beibl. Dyweded J. E. mai ymffrost yw hyn, os dewis, ond mae yn eithaf gwir.—Gol.

† Yn mha le mae J. E. wedi cael allan mai cyfeiliornad yw Undodiaeth? Pwy sydd wedi dyweyd hyn wrtho? Nid y Beibl. Nid hen lyfr mawr y greadigaeth. Nid rheswm, oblegid Undodiaeth sydd ynddynt oll. Rhaid ynte mai yn y Credoau mae wedi cael hyn allan. Dywedai y Pab mai cyfeiliornad yw athrawiaeth J. E. Gan mai anffaeledigion yw J. E. a'r hen wr sydd yn Rhufain, p'un o honynt gredwn?—Gol.

‡ Dyma gamsyniad arall gan J. E. Y ffaith yw mai Methodistiaeth, ac *aethau* eraill o'r un rhyw, sydd yn *terfynu* mewn Deistiaeth, os nid weithiau mewn rhywbeth sydd bellach y'mlaen. Gallem enwi amryw a yrrwyd i Ddeistiaeth gan wrthuni yr athrawiaethau poblogaidd, wedi eu dwyn yn ol i Grist'nogaeth gan athrawiaethau syml ac ysgrythyrol Undodiaeth. Anhawdd genym gredu nad yw J. E. hefyd yn gwybod am rai. Mae yn taro tro llawer yn y dyddiau hyn i awgrymu am Undodiaeth ac Undodiaid bethau a feithruna ragfarn y werin anwybodus yn eu herbyn.—Gol.

enwog James Owen yn yr Amwythig; ac yn goron ar y cwbl, cafodd ei ordeinio gan y bythgofiadwy Mathew Henry, yn gyssylltiedig ag ereill. Ond er y cwbl, y mae dau beth yn ei berthynas ef a'r athrofa ag sydd byth yn cyssylltu ei enw ef a hithau â dechreuad y ddadl Arminaidd. Yn gyntaf, bu yr athrofa byth ar ol hyny â'i haddysg yn nwylaw gweinidogion Arminaidd ac Undodaidd, oddieithr ychydig eithriadau. Yn ail, yr oedd y myfyrwyr a fu dan ei addysg ef yn yr athrofa bron i gyd yn dal syniadau Arminaidd, ac aethant yn mhen ychydig o flynyddoedd i broffesu a phregethu hyny yn gyhoeddus. Yn awr, os nad oedd ef ei hun yn Armin, rhaid fod rhywbeth yn yr athrofa ar y pryd oedd yn rhoddi achles i syniadau o'r fath. Pa fodd bynag, dywedir am dano ef ei fod yn ddyn hynaws, caredig, a thyner-galon, ac felly ei fod yn rhy dueddol i oddef gormod o ryddid barn a buchedd yn ei ddysgyblion.

Ond i beidio rhoddi gormod ar Mr. Perrot, gallai fod rhywbeth yn amgylchiadau yr amseroedd oedd yn ffafriol i'r hyn oedd yn myned yn mlaen yn yr athrofa. Yr oedd yr Anghydffurfwyr wedi dyoddef llawer dan deyrnasiad y frenines Anne, yr hon oedd yn llawn digofaint tuag atynt hwy a'u hachos. Ac er mwyn gyru ychwaneg o eiddigedd arnynt, darfu iddi roddi gwaddol o 100,000p. i offeiriaid Eglwys Loegr. Ni wnaeth hyny niwed yn y byd i'r Anghydffurfwyr, er yr anmharch, y golled, a'r carcharu ddarfu iddynt ddyoddef yn achos eu crefydd; ond dan deyrnasiad George I., cyfyrder y frenines Anne, yr hwn a esgynodd i'r orsedd ar ei hol, darfu iddynt hwythau gael peth a wnaeth niwed mawr iddynt, sef dyogelwch i'w personau a'u heiddo, parch i'w henwau a'u hachos, a thipyn o waddol i'w llogellau. Yn fuan wedi iddo gael yr orsedd dano, cafodd yr Anghydffurfwyr weled fod ganddynt ryddid i grefydda fel y mynent, a mwy na hyny, gan fod y brenin yn eu gweled yn ddeiliaid mor ufydd i'r goron, ac mor fendithiol i'r wlad, ac etto yn gorfod cynal eu crefydd heb un math o gymhorth o'r llywodraeth, mynodd lwyddo gyda'r Senedd roddi ***Regium Donum***, sef rhodd o 1700p. yn flynyddol. Bu George I. yn teyrnasu o 1714 hyd 1727, ac felly cyn, ac yn amser Mr. Perrot yn ei gyssylltiad â'r athrofa. Onid oes genym le i gasglu i'r llyn ymlygru tra yn mwynhau tawelwch? Nid oes genym hanes am lygredigaethau yr Anghydffurfwyr yn nghanol ystormydd y frenines Anne, ond yn y mwynhad o dawelwch a moethau gwladwriaethol George I. dechreuodd drygsawr llygredigaeth yn fuan ymddyrchafu. Darfu i lawer o honynt arfer eu "rhyddid yn achlysur i'r cnawd." Ac felly tua'r flwyddyn 1720, yr oedd dynion ieuainc digon ysgafn a dibrofiad wedi codi yn yr eglwysi i lygri yr athrofa yn fuan wedi myned iddi, yn enwedig os nad oedd yno allu digon pwerus yn yr athraw i roddi attalfa arnynt. Beth bynag ni byddem ni yn anturio beirniadu cymmaint ar achos dechreuol Arminiaeth ac Undodiaeth y darn hwn, oni bae ein bod yn gweled angen am hyny, gan fod y peth wedi ei adael rywfodd mewn cryn raddau o dywyllwch hyd yma.

Yn 1721, aeth Jenkin Jones i'r athrofa—Jenkin Jones, Llwynrhydowen, neu Pantydefaid, fel yr adnabyddir ef yn gyffredin. Efe yn ngolwg llawer yw y "gelyn ddyn" ddechreuodd hau efrau y ***Darn Undodaidd***, nid yn unig yn y darn Undodaidd ei hun, ond yn holl Gymru. Pa nifer bynag o rai yn dal syniadau Arminaidd oedd yn yr athrofa, gallem feddwl nad oedd yno neb yn ddigon gwrol i roddi ***expression*** i'r cyfryw nes i Jenkin Jones fyned yno. Efe oedd yr ***arch***-Armin yn yr athrofa, ac efe wedi hyny fu gwron Arminiaeth yn Nghymru. Yr oedd yn aelod gyda'r Annibynwyr yn Pantycreuddyn, yn agos i Landyssul, sef capel Horeb presenol, yr hwn oedd ar y pryd dan ofal bugeiliol y Parch. James Lewis, gweinidog henadurol Pencadair, ac felly yr oedd Pantycreuddyn ar y pryd yn eglwys Bresbyteraidd. Yn fuan wedi gadael yr athrofa ordeiniwyd Jenkin Jones yn y Ciliau, cyn i fawr neb ddeall dim am ei farn Arminaidd. Yna priododdi ag etifeddes Pantydefaid. Ond gan ei fod yn gweled nad oedd heddwch iddo yn ei eglwysi of ei hun oblegid ei farn, adeiladodd Llwynrhydowen ar ei dir ei hun yn 1725, lle y cawn hanes ei sefydliad fel bugail yn 1726. Dywed rhai haneswyr mai yn 1729 y dechreuodd bregethu Arminiaeth; ac os mai efe oedd y cyntaf i wneyd hyny yn Nghymru, nid oes reswm dros ddyweyd gan yr un haneswyr, fod cymanfa y Bedyddwyr yn Llangloffan, wythnos y Sulgwyn yn yr un flwyddyn, wedi gosod cynlluniau er gwrthweithio dylanwad y cyfeiliornad. Cyn i'r heresi gael ei godi i sylw mor gyhoeddus, rhaid i ni gredu ei fod wedi bod am hir amser gerbron y wlad, a'i fod wedi aflonyddu cymmaint ar heddwch yr eglwysi, nes nad oedd dim i wneyd

bellach ond ei godi i sylw y Gymanfa. Beth bynag, dyna sydd yn rhesymol i'w gredu. Gan hyny, gwell genym gredu yr hanesywr sydd yn dyweyd iddo gael ei ordeinio yn y Ciliau a'r capeli cylchynol, ac iddo yn fuan wneyd y rhai hyny mor ddigonol o hono, fel yr oedd yn well ganddo gael capel iddo ei hun. Ac wedi iddo ef ddechreu pregethu ei syniadau, daeth disgyblion craill i Mr. Perrot i'w gynhorthwyo, megys y Parch. Abel Francis a Mr. Rees Davies, Ysgolfeistr yn Castellnewydd, a'r Parch. Charles Winter, Hengoed, Morganwg. A chan fod yr eglwysi hyn ac craill wedi cael eu hatlonyddu gymmaint, naturiol oedd i'r Gymanfa alw sylw at y cyfeiliornad yn 1729. Nid ydym yn gweled yr un rheswm yn cael ei roddi dros i Jenkin Jones adeiladu Llwynrhydowen o gwbl, ond gan y rhai sydd yn dyweyd iddo gael ei ordeinio, a dechreu pregethu ei syniadau, *cyn hyny*. Wrth reswm darfu i ryw gyfarfod i'w sefydlu fel gweinidog i gael ei gynal yn y capel newydd, a hwnnw a gamenwir gan rai yn gyfarfod i'w ordeinio. Ac felly yr ydym yn credu fod Undodiaeth bresenol y darn hwn wedi dechreu mewn Aminiaeth, a hyny tua'r flwyddyn 1724, trwy offeryuoliaeth Jenkin Jones.

Yr oedd yn y darn hwn, cyn dechreuad gweinidogaeth Jenkin Jones, rai eglwysi Presbyteraidd ac Amibynol, megys Ciliau, Crugymaen, Caeronen, Pantycreuddyn, &c., a hyny mewn cyssylltiad â'r Cilgwyn, Aberneurig, a Llwynpiod, y rhai oedd, ac y sydd allan o'r darn. Yr oedd y rhai hyny ar y dechreu yn ffieiddio ei athrawiaeth; ond gan ei fod yn wr o feddianau mawrion, ac yn bregethwr hyawdl a phoblogaidd, dechreuodd ei ddylanwad yn fuan ymledu, fel cyn diwedd ei oes, yn 1742, dywedir fod chwech o eglwysi a'u gweinidogion wedi mabwysiadu ei olygiadau. Gallem feddwl mai Llwynrhydowen, Ciliau, Crugymaen, Caeronen, yn nghyd ag Alltyblaca a adeiladwyd yn 1740, a'r Cribin a adeiladwyd tua'r un amser, oedd yn gwneyd i fynu y chwech, os oeddynt yn y darn hwn i gyd. Gallai fod rhai o honynt allan o hono. Dywedir mai ar ol ei farwolaeth y darfu i'r eglwysi hyn lithro i Ariaeth; ond dywedir y'mhellach am ei Arminiaeth ef a'i gydoeswyr mai Arminiaeth-Belagiaidd ydoedd yn arwain yn naturiol i Ariaeth. Tebyg ydoedd i Arminiaeth y Cyfandir yn y ddwyfed ganrif ar bymtheg, yr hon a gymerwyd drosodd i Loegr. Yr oedd Arminius ei hun yn dal pechod gwreiddiol, a chyfiawnhad trwy ffydd; ond yn niwedd y ganrif a nodwyd, yr oedd yr Arminiaid yn gwadu pob un o honynt,* fel ag y gwna y Pelagiaid, neu y Morganiaid. A digon tebyg mai yr un syniadau a gymerwyd i fynu gan Arminiaid Cymru. A chan mai gweddnod arbenig Arminiaeth-Belagiaidd oedd mawrhau gallu dyn, yr oedd tueddiad uniongyrchol ynddi i roddi llai o bwys ar yr angenrheidrwydd am Grist fel Gwaredwr, ac felly i fychanu ei Berson fel y gwneir gan yr Ariaid. Ac wrth lithro i Ariaeth yr oedd Sabeliaeth bron yn anocheladwy, sef gwadiad o'r Drindod; ac felly nid oedd ond cam bychan bellach at Undodiaeth bresenol y darn Undodaidd. A thua dechreu y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr oedd y "Ddadl Undodaidd" yn berwi ysbryd holl eglwysi Presbyteraidd y darn. Arweinydd y ddadl oedd y Parch. Charles Lloyd, LL.D., mab i'r Parch. David Lloyd, Bryn-llefrith, yr hwn oedd yn weinidog yn Llwynrhydowen ar ol Jenkin Jones. Treuliodd Dr. Lloyd lawer o'i amser gyda'r Bedyddwyr rhyddfrydig, a bu wedi hyny yn weinidog gyda'r Undodiaid yn Llundain. Pan yn Nghymru dadleuai yn frwd yn mhob man dros Undodiaeth, ac y mae llawer hanesion digrif yn cael eu hadrodd am dano eto, er dangos fel yr ymdrechai nos a dydd dros ei hoff bwnc. A llwyddodd mor bell ag i gael digon o blaid i godi dau gapel yn yr un flwyddyn, sef Pantydefaid a Chapel y Groes yn 1802, y cyntaf yn gangen o Llwynrhydowen, a'r olaf o Alltyblaca. Ac yn mhen rhyw bum' mlynedd ar ol y ddau, adeiladwyd ysgoldy Ystrad, dan arweiniad David Jenkin Rhys, Lloyd Jack, i gangen o'r Ciliau, a hwnnw yw Rhydygwin presenol. Dyma yr unig gapeli yn y darn a godwyd at wasanaeth yr enwad Undodaidd, a dianc a wnaeth y tair eglwys yn y dechreu o gapeli craill, er mwyn cael rhyddid i broffesu yn ol eu barn, fel y gwnaeth Jenkin Jones a'i ganlynwyr flynyddoedd cyn hyny er mwyn eu barn Arminaidd.

* Mae J. E. yn camsynied yma eto. Nid yw'r Arminiaid, na'r Ariaid, na'r Undodiaid, yn gwadu cyfiawnhad trwy ffydd, yn yr ystyr Apostolaidd, nac ychwaith yn bychanu person Crist. Gwrthod maent hwy ddeongliad y pynciau yma gan J. E. a'i frodyr. Mae'r "Canaaneaid" yn credu fod athrawiaeth Paul yn lawer rhesymolach a golenach nac athrawiaeth gwyr Bashan, ac os yr anturia J. E. byth i broselytio y "Darn Undodaidd," caiff wybod y gwahaniaeth, yr hyn nid ymddengys ei fod erioed wedi amgyffred, ac o bossibl y dychwel yn ol dros yr Iorddonen yn oleuach nag oedd cyn ei anturiaeth. Mae pulpidau y "Canaaneaid" yn agored iddo pryd bynag fyddo yn dewis eu ffafrio âg ymweliad.—Gol.

Felly y mae yn amlwg bellach fod crefydd yn y darn hwn wedi ymddadblygu i lawer o ffurfiau cyn dyfod i'w ffurf Undodaidd bresenol, ac mai peth diweddar mewn cymhariaeth ydyw ei Undodiaeth. Daeth y dynion yn gyntaf yn Anghydffurfwyr, wedi hyny yn Bresbyteriaid, Bedyddwyr, ac Annibynwyr; wedi hyny yn Arminiaid a Phelagiaid, wedi hyny yn Ariaid a Sabeliaid, ac yn olaf oll yn Undodiaid. Mae eu capelau yn naw mewn nifer—dau, sef Caeronen a Chiliau, wedi eu codi i'r hen Bresbyteriaid; pedwar, sef Llwynrhydowen, Bwlchyfadfa, Alltyblaca, a'r Cribin, ar gyfer yr Arminiaid, a'r tri craill a enwyd ar gyfer yr Undodiaid. Mae ysgoldy, neu gapel, wedi cael ei adeiladu yn y blynyddoedd diweddaf yn ymyl Cwrtnewydd, am yr hwn ni chawsom hysbysrwydd i ba enwad y mae yn perthyn, dim ond mai un o'u gweinidogion hwy sydd yno yn gwasanaethu. Aeth hen eglwysi Presbyteraidd Crugymaen a Phantycreuddyn, y rhai sydd yn y darn, y gyntaf yn Fedyddiol a'r olaf yn Annibynol. Ond am y deg eraill ydym wedi nodi, Undodiaeth erbyn hyn yw eu credo gyffredinol, er y ceir llawer o bersonau yma a thraw i ddyweyd mai Arminiaid ydynt; ond ni fynant gael ei galw yn Sociniaid* ar un cyfrif. Mor bell ag y gallwn gasglu, daeth yr hen eglwysi yn fuan i broffesu Arminiaeth-Belagiaidd, ond yn raddol iawn y daethant i broffesu Undodiaeth, fel y mae llawer ynddynt eto na fynant ei broffesu. Mae llawer o honynt hefyd o'r un syniadau a'r Bedyddwyr mewn rhyw bethau, fel y maent wedi mynu cael eu bedyddio ganddynt, er yn aros gyda'r Undodiaid.

Mae y darllenydd, bellach, mewn mantais i farnu am sefyllfa y cyfeiliornad yn yr amser y torodd gwawr y Diwygiad Methodistaidd yn 1736. Nid oes ammheuaeth† yn ein meddwl nad y Diwygiad fu yn foddion i attal ei rwysg y'mhellach na Llanbedr, y tu yma i'r afon Teifi. Bu yn gwneyd ymosodiad dewr ar y wlad mor bell a Llanddewibrefi; ond y mae hanesion eto ar gael am William Richard Llwyd a Williams, Pantycelyn, yn gwneyd y fath ymdrech yn ei erbyn, fel na ddarfu iddo godi ei ben yno byth ar ol hyny. Ond y mae yn syn genym,‡ gan fod y Diwygiad mor nerthol, ac wedi cael y cyfeiliornad cyn iddo ddyfod haner i'w nerth presenol, na

---

* Nid oes cywilydd ar yr Undodiaid i arddel y ddau *Socinus*. Dynion dysgedig a duwiol oeddynt, a dynion a wnaethant aberth mawr dros eu syniadau—ni wnaeth neb yn eu hoes fwy: ond mae'r Undodiaid yn gwahaniaethu oddiwrthynt mewn barn ar un pwnc pwysfawr. Yr oeddynt hwy yn dal fod Iesu Grist yn wrthbrych addoliad *dwyfol*. Nid yw'r Undodiaid yn credu hyn. Un yw gwrthrych addoliad dwyfol yn eu barn hwy—*y Tad yn unig*, yr hwn a addolid gan yr Iesu ei hun. Am hyny, nid yw yn iawn eu galw yn *Sociniaid*. Mae y Trindodiaid yn nes at y Socini, gyda golwg ar y pwnc pwysfawr hwn, na'r Undodiaid—maent yn fwy o Sociniaid. Mae yn wir fod y pregethwyr Trindodaidd wedi ymdrechu meithrin rhagfarn y werin yn erbyn yr Undodiaid trwy gymhwyso yr enw atynt, pe faent rywbeth gwaeth o hyny. Nid oes ar yr Undodiaid ddim cywilydd i arddel y ddau Socinus. Dynion oeddynt heb eu bath yn eu hoes.—Gol.

† Nid oes dim amheuaeth ar ein meddwl ninau ychwaith na wnaeth y Methodistiaid eu goreu i luddias goleuni "Canaaneaid" Sir Aberteifi i lewyrchu ar Bashan. Ymddengys na ddewisant i un goleuni dreiddio i mewn i'w gwersyll a fyddo yn dynoethi gwrthuni eu hathrawiaeth. Mae yn hysbys ddigon y gofal a gymerant i gau allan o'u heglwysi a'u hysgolion Sul lyfrau o sawr Undodaidd, ac i ddarbwyllo y bobl i gredu fod y fath lyfrau yn cynwys gwenwyn marwol. Mae yn hysbys hefyd i lawer fod y gweinidogion yn cael trafael nid bychan i gadw i fynu y gwarchae, ac er eu gwaethaf fod llawer, yn enwedig o ddynion ieuainc, yn eu heglwysi, yn taflu naill ochr draethodau Iawnffyddiaeth, fel pe fyddent wedi laru arnynt, ac yn darllen yn lledhaddaidd lyfrau y "Canaaneaid," megys "*Priestley's Corruptions of Christianity*," "*Smith on the Divine Government*," gwaith Martineau, Dr. Channing, ac eraill, ac i fod y ffaith hon yn peri gofid blin i'r pregethwyr. Mae yn bossibl fod J. E. yn un o honynt, ac mai hyn mewn gwirionedd fu yn achos i'w gyffroi i ymosod ar y "Darn Undodaidd," oblegid er ei fod yn ceisio dangos yn deg, nid oes eisiau edrych yn mhell dan y wyneb i ganfod ei fod yn dra anfoddlon i'r "Canaaneaid." Ond beth : nag yw ei amcan, nid ydym yn gallu gweled fod y ddau ddarlith mae wedi gyhoeddi yn ateb fawr ddyben. Gwyr pawb fod rhyw achosion wedi cydweithio i beru i wybodaeth grefyddol flaguro yn y "Darn Undodaidd," fel y mae achosion gwahanol yn cydweithio i gadw manau eraill mewn tywyllwch. Nid oes un effaith heb achos. Yn lle cymeryd arno anffaeledigrwydd y Pab, pe cymerasai J. E. mewn llaw i ddangos fod Undodiaeth Gristionogol yn anysgrythyrol a chroes i ddatguddiadau Duw yn ei weithredoedd, buasai yn werth iddo ysgrifenu, a buasai y "Canaaneaid" yn ddiolchgar iddo, gan nad faint fuasent yn anghytuno a'i olygiadau; ond diehon y gwna hyn cyn diweddu.—Gol.

‡ Nid yw'n beth i'w synu o gwbl pe yrystyriai J. E. mai'n unig ar ddynion hollol anwybodus mewn pethau crefydd yr effeithiodd y Diwygiad Methodistaidd, ac addefwn gyd â phleser iddo wneuthur mawr les yn Nghymru dywyll; ond yr oedd trigolion y "Darn Undodaidd" y pryd hwnw wedi bod yn dysgu duwinyddiaeth a gwybodaethau ysgrythyrol, gan Jenkin Jones, Abel Francis, Perrot a Chas. Winter, ac wedi gwneuthur cynnydd nid bychan. Yr oeddynt yn lawer rhy oleu i'r cenhadwyr Methodistaidd, na neb Trindodiaid eraill i'w darbwyllo i ailgymeryd at athrawiaethau ag oeddynt wedi canfod eu hanysgrythyroldeb a'u gwrthuni—yr oeddynt yn oumod o ysgolheigion i fyned yn ol drachefn i A B C y Llyfr Corn, oblegid yr oedd yr ysgolfeistri uchod yn Nghrist wedi eu dysgu i ddarllen eu Beiblau. Y fath ddarnau a Llangeitho, lle yr oedd tywyllwch dudew yn teyrnasu, oeddynt gymmwys ar cenhadon Methodistaidd. Yr oedd trigolion y darn Undodaidd wedi tyfu i maes

byddai wedi rhoddi mwy o attalfa arno yn mhob man. Ond beth dal son, y mae gan bob Diwygiad ei waith arbenig ei hun, a digon tebyg yr erys rhai o'r Canaaneaid hyn yn y wlad nes y cyfyd rhyw un etto tebyg i Calfin gynt i'w gorchfygu; ond er mwyn pob peth sydd ddynol a chrefyddol, pa bryd bynag yr ymlidir hwy allan, gobeithio mai nid trwy yr un oruchwyliaeth y gwneir hyny ag a arferwyd tuag at Servetus.

J. E.

Y DIWEDDAR MR. DANIEL THOMAS, DINAS.

(Parhâd o tud. 236.)

Tua'r amser ag y darganfyddwyd y *Steam Coal;* buwyd yn llwyddiannus hefyd i gael *No.* 3 ar dir Twynyrhyfen wedi agor *Incline* tri chant a haner o latheni o hyd; ac agorwyd y'mhellach dwll drwy'r ddaear, neu yn hytrach yn y glo wedi ei gyrhaedd ef allan i Gwm Clydach; yn gwneuthur ar y cwbl dramwyfa tanddaearol o Gwm y Rhondda Fawr i Gwm Clydach, oddeutu filltir o ffordd; a thyma'r fan y darganfyddwyd y *No.* 3 yn Ngwm Clydach gyntaf erioed. Nid oedd neb yn dychmygu cyn hyny ei fod i'w gael yn agos i wyneb y ddaear yno, am fod y cyfryw wythien ar arllwysiad y Clydach i'r Rhondda, tua chant a thriugain llath yn is, nag y profwyd felly ei bod yn y rhan hon o Gwm Clydach; mae yn awr weithiau tra helaeth arni yno, a'r agoriad hwn i'r 200 erw sonedig yn parhau ar waith hyd heddyw, trodd y glo allan yn dda, a'r tri yn *ddifault.*

Tua'r flwyddyn 1822, addawodd Mr. Thomas wrth Christopher James, Ysw., perchenog gwaith Llwyncelyn, Cwm y Rhondda, ar y pryd, roddi pob hyfforddiad a chynorthwy ag a allai i'w fab, Mr. Edmund Thomas (yr hwn oedd yn dra ieuanc i gymeryd gofal o'r fath arno), i gario allan y glowaith hwnnw dros Mr. James. Yr oedd gan yr hen foneddig a'i barchus feibion, Meistri D. W. James a J. James, ymddiried mawr yn Mr. D. Thomas, yr hyn a ddangosasent lawer gwaith, mewn llawer modd; a da genyf allu crybwyll wrth fyned heibio, fod yr hwn a ddechreuodd felly yn ieuanc rhagolygu gweithfa Llwyncelyn, dan nawdd ei dad yn 1852; er ys blynyddau bellach yn Lofasnachydd tra helaeth ei hun, ac yn byw yn Llwyncelyn *House* y dydd hwn; ac mewn parch mawr gan wreng a boneddig yn ei ardal; a chymmaint felly gyda'r rhai sydd yn fyw o olafion C. James, Ysw., ag y bu ei dad erioed.

Wedi i Mr. Daniel Thomas ymadael a gweithfa'r Dinas; er ei fod mewn sefyllfa ag y gallasai efe a'i deulu fyw yn annibynol, eto 'r oedd ei weithgarwch gymmaint, a'i awydd am rhagbarotoi rhyw sefyllfaoedd idd ei feibion ieuangaf; anturiodd yn Mai, 1867, i fasnach y glo ei

(*outgrow*) bynciau "Iawnffyddiaeth" neu *orthodoxy.* Yr oeddynt wedi troi heibio y rhai hyn fel dillad wedi myned yn rhy fach i'r plant. Buasai yn gymmwys mor ffol a difudd i'r cenhadon Methodistaidd i geisio troi y "Darn Undodaidd" yn ol i Drindodiaeth a phe ceisient wisgo dynion wedi tyfu i faintioli mewn dillad plant, ac felly y mae o hyd yn para. Mae y "Darn Undodaidd" yn rhy oleu i Fethodist—Capel Llangeitho yw ei le ef. Yn wir, wrth bob hanes, mae trigolion o fath Darn Llangeitho yn gwneud cynnydd. Mae llawer yn eu plith, er ys hir amser, wedi myned maes o'r llyfr Corn, ac yn awr yn trafaelu yn gyflym ar hyd yr un ffordd ag y mae yr Undodiaid wedi myned drosti. Mae llawer eisioes wedi cyrhaeddyd yr *Halfway House*, os nid yn wir yr *Inn* sydd bellach y'mlaen, ar *Sign* yr hon y mae y gair "Ariaeth." Yn fyr, gall J. E. fod yn sicr, pa faint bynag y dymuna fod yn anwybodus o'r ffaith, fod trigolion o fath Darn Llangeitho yn dynesu yn fuan at gyrau gwlad y "Canaaneaid," nid hwy eu rhostio fel Servetus yn ol awgrymiad J. E., ond i'w cyfarch fel brodyr a phlant yr *Un Tad* oll.—Gol.

hun, trwy gymeryd at *Level*, gerllaw gweithfa'r Dinas, gan foneddig a'i hadwaenai (E. Davies, Ysq., Bwllfa); trodd masnach y glo ym mhen ychydig wedi hyny yn farwaidd, a'r pris oedd yn y farchnad am y *quality* oedd ganddo ef, yn dra isel; cyfarfu hefyd a llawer o ddwfr yn y gwaith; *faults*, a rhwystrau eraill; gymaint felly, oni buasai ei fedrusrwydd fel gloweithydd y byddai yn rhwym o droi allan yn golled iddo. Blinodd ei hun yn herwydd yr antur hon, a rhoddodd y lle i fynu ychydig cyn ei farwolaeth, a phan wedi cymeryd gweithfa arall gerllaw, dan dir y Brithweunydd, eiddo'r hybarch Gwilym William, Ysw., presenol *Stipendary Magistrate* Pontypridd a'i amgylchoedd, yr hwn waith sydd ar hyn o bryd ym meddiant ail fab Mr. Thomas, sef Mr. Daniel Thomas y ieuangaf, a gellir gyda phriodoldeb ddywedyd mai darlun o'i dad ydyw, mewn amryw ystyron; a chynorthwyir ef yn y fasnach gan frawd sydd ieuangach, Mr. Josiah Thomas, un mab arall sydd yn fyw, Idris Thomas, yn yr ysgol ym Merthyr Tydfil. Gadawodd ei tad tua gwerth o 25p. i 30p. yn flynyddol, yr un i'w ddwy ferch, a'r mab ieuangaf; haner cant punt yn flynyddol i Isaiah, a chyffelyb swm gyda'i thŷ a'i buwch i'w anwyl weddw. Deillia'r flwydd-dâl ddiweddaf hyn oddiwrth hanereg yr elw caffaeledig o waith glo Blaenclydach; perthyna'r hanereg arall i Mr. Edmund Thomas, o Lwyncelyn.

Yr oedd Mr. Thomas yn Undodwr selog, ac yn byw i fyny i'w broffes; er na ymunodd ag un gynulleidfa Undodaidd (y mae llaweroedd cyffelyb iddo yn swydd Forganwg); ac yn rhyddfrydwr goleuedig. Cymerai ran gyda brwdfrydedd yn newisiad aelodau i'r Senedd. Yr oedd llefarwr cyhoeddus tarawiadol a rhwydd; ond byth ni chollai ei dymher hynaws a charedig yn yr ymdrechion cyffrous hyn. Cof genyf ddyfodiad nifer o foneddigion i'r Dinas i geisio pleidleiswyr dros y Dr. Nichol, pan safodd y boneddig hwnnw yn erbyn Mr. Coffin i fod yn aelod seneddol dros Gaerdydd a'i hamgylchoedd, ac yn eu plith fab i Dr. Nichol. Yr oedd y bore'n deg, a'r dyn ieuanc wedi cychwyn oddicartref heb ymgeledd cymhwys i wynebu dryg-hin; a thra oedd y boneddwyr hyn yn y Dinas, torodd allan yn wlaw lled drwm. Dywedodd Mr. Thomas wrth *young* Nichol y byddai'n bleser ganddo roddi benthyg *Coat* fawr iddo, a'i cadwai'n ddyogel rhag gwlychu ar ei ddychweliad.

"Beth!" ebe un o'r *Tories* ag oedd yn bresenol, "A fydd i chwi roddi benthyg eich *Coat* i Mr. Nichol? "O gwnaf," ebe yntau, "yn llawen, unrhyw beth sydd yn fy meddiant er dyogelu eich iechyd un ac oll; ond, dim un *vote* o'r Dinas os gallaf." Dyma ei nodwedd gyffredinol, yn parchu pawb; eto, penderfynol a gweithgar i amddiffyn ei olygiadau gwleidiadol, crefyddol, masnachol, a moesol. Yr oedd yn un o'r dynion goraf ar y cwbl a adnabum erioed; nid ar antur y mae hyn yn cael ei ddywedyd, oblegid bum yn cydweithredu ag ef, fel ysgrifenydd yng ngweithfa'r Ddinas am dair ar hugain o flynyddau o'r bron, ac felly yn berffaith gydnabyddus â'i amcanion tuag at feistr a gweithwyr, ag eraill ddeuai i gysylltiad ag ef. Bu farw ein cyfaill hawddgar ar y drydedd ar ugain o Ionawr diweddaf, yn Dolyffynon, ei dŷ ei hun, yn agos i weithfa'r Ddinas, yn 61 mlwydd oed. Heddwch i'w lwch, a llwyddiant ddylino ymdrechion ei anwyl blant yw dymuniad calon yr ysgrifenydd.

J. Evans.

BYWGRAFFIAD EVAN THOMAS.

(Parhad o tudal. 239.)

Yn fuan wedi myned i ddilyn ei ysgol i Landyssul, tueddwyd ei feddwl i ymbarotoi i'r weinidogaeth Undodaidd. Yr oedd hyn ychydig amser ar ol cychwyniad y Drysorfa i Gynorthwyo Gwyr Ieuanc Cymru a ddymunent addysg ar gyfer llafurio yn y gyfryw weinidogaeth. Yr oedd cymhwysderau neillduol ynddo at y swydd uchel hon. Yr oedd difrifoldeb a phenderfyniad yn brydweddau amlwg iawn yn ei nodwedd. Pell oddiwrtho oedd pob maswedd ac ysgafnder, a chellwair. Yr oedd yn Britanaidd yn ei ddwysder a'i gydwybodolrwydd. Yr hyn a ystyriai ef yn ddyledswydd, ni throai sèn na gwaradwydd ef oddiwrtho. Blwyddyn o lafur caled fu ei flwyddyn gyntaf yn y Coleg. Yr oedd *Junior Class* y flwyddyn hono yn un lluosog ac yn amgenach na'r cyffredin, yn cynwys nifer o fyfyrwyr o safle uchel ar eu derbyniad i'r Coleg. Nid y'mhlith gwehilion unrhyw ddosbarth y mynai ein cyfaill yntau i fod, ond rywle tua'r blaenaf, ac felly y llwyddodd i fod tra y bu yn alluog i ddilyn ei ddosbarth. Pan ddaeth yr arholiad blynyddol yn Mehefin, 1868, yr oedd ein cyfaill ieuanc wedi llesghau gan lafur i raddau, ac wedi ymbruddhau mewn mesur o dan y teimlad dyeithr hwn o lesgedd, a chododd gryn lawer o waed o'r ysgyfaint tua dechreu yr arholiad; eto aeth rhagddo a phasiodd yn dda, rhyfeddol dda o dan yr amgylchiadau, a safai yn uchel ar y diwedd yn ei ddosbarth, a derbyniodd wobr am ei ragoriaeth. Ar ol treulio'r haf, hyd y gallai, i adgyweirio ei iechyd, dychwelodd i'r Coleg yn yr Hydref, ac arosodd yno hyd derfyn y Coleg-dymhor, Mehefin 1869. Ni fu yn abl llafurio agos gyda'r hen egni y flwyddyn hon. Yr oedd dan groes drom o bryder yn herwydd ei iechyd; er hyny, daliodd ati gan gyflawnu gwaith ei ddosbarth yn y Coleg. Yr oedd wedi dechreu pregethu cyn ei dderbyn i'r Coleg, ond yr ail flwyddyn hon gorfu arno ymattal i raddau helaeth. Gallwn sylwi ei fod fel pregethwr ieuanc yn dra gobeithiol; gosodai ei feddwl allan yn synwyrol ac amlwg, gan ymddangos fel yn teimlo yn ddwys yr hyn oedd yn gymhell i sylw eraill. Ni ddychwelodd i'r Coleg, Hydref y flwyddyn hon (1869), ond arosodd gartref gan obeithio ymgryfhau a gwella. Bu yn anarferol o wael am beth amser tua'r gwanwyn, 1870, a meddylid ei fod ar ymadael, ymuniawnodd drachefn, a gobeithiai yn gadarn fod gwellhad iddo a blynyddoedd o ddefnyddioldeb ar y ddaear. Eto, diau fod amserau pan y codai anmheuaeth yn ei feddwl am hyn, pan y crwydrai ambell i awel oer o gyfeiriad glyn cysgod angeu heibio iddo,

"For coming events cast their shadows before."

(Mae dygwyddiadau i dd'od yn taflu eu cysgodau y'mlaen). I'w gyfeillion, gwanaidd iawn oedd yr argoelion o adferiad i iechyd, a rhy anhawdd desgrifio pryder a gofid y tad a'r fam wrth weled nad oedd goreu eu tynerwch a'u cariad hwy, na thiriondeb cyfeillion pell ag agos yn effeithio ond ychydig, os dim, cyfnewidiad er gwell. Fodd bynag yr oedd yr hen elfen yn gryf ynddo trwy'r cwbl. Aeth yn ol i'r Coleg ar

ol blwyddyn o absenoldeb yn Hydref, 1870. Bu yno am fis, ond nis gallodd wneyd nemawr o waith. Carai rodio yr hen lwybrau, a syllu ar yr hen wynebau a thrafod yr hen gyfrolau, ac ymgomio â hen gyfeillion; ond ni ddeuai yr amser gynt yn ol. Teyrnasai rhyw ddyeithrwch a phrudd-der dros bob peth. Yr oedd ei anallu yn cymylu pob peth iddo. Siomodd yr ymweliad hwn â Chaerfyrddin, yn debyg, ef yn fawr gan na chredasai o'r blaen ei fod mor wan. Ymadawodd ym mhen mis yn ddisymwth a dirybudd i neb, gan na allai oddef y meddwl am ffarwelio a'i hen athrawou a'i gydfyfyrwyr. Y tro hwn, fel yn flaenorol, cyn iddo adael y Coleg, derbyniodd garedigrwydd a thiriondeb mawr oddiwrth Mrs. Evans, gweddw y diweddar Barch. Titus Evans, lle yr oedd yn llettya. Pan ddychwelodd adref, gwaethygodd ei iechyd am dro, ond erbyn Mawrth 29ain, 1871, yr oedd wedi d'od i deimlo yn ddigon cryf i benderfynu gwneyd prawf o fordaith i'r Unol Daleithiau, gan obeithio y cai les mawr trwy hyny. Aeth y'mlaen i Granville, Ohio, a bu yn aros gyda'i hen gyfaill o'r wlad hon, Mr. John David Jones, gynt o'r Farm Yard, Talgarreg, oddiwrth yr hwn a Mrs. Jones y derbyniodd hawddgarwch a thiriondeb mawr, yn gystal ag oddiwrth gyfaill ieuanc genedigol o Dolgarreg, un o'i hen gyfoedion Mr. T. C. Thomas, yr hwn oedd yn myned allan gydag ef i America, a'r hwn wedy'n a ddaeth o gryn bellder i'w gyfarfod i New York ar ei ddychweliad yn ol i'r hen wlad. Siariadai yn uchel iawn am y cyfaill ieuanc hwn, a theimla ei rieni yn ddiolchgar iawn iddo am yr esmwythad i'w teimlad i weled eu hanwyl fab yn cychwyn i fordaith mor bell yn nghwmni cyfaill mor gywir. Ni fu yn trafaelu yn yr America; yr oedd ei iechyd mor wan a'r draul yn fawr. Ond sylwodd lawer ar y wlad a dull y trigolion o fyw, ac yr oedd ganddo lawer o destynau i siarad am danynt ar ol ei ddychweliad yn ol yn Awst yr un flwyddyn. Y lles goreu a gafodd o'r daith hon yn debyg oedd newid golygfeydd, a thynu'r meddwl dipyn allan o'r hen dracau, a chynhyrfu mwy o ysbryd ynddo. Nid oedd ar ei ddychweliad, i bob golwg ar y pryd, na gwell na gwaeth, ond gwaethygu a wnaeth cyn hir, ac y mae hanes ei fywyd o hyn allan i'w gynwys mewn ychydig eiriau. Ar ol bod gartref am rhwng dau a thri mis teimlai awydd arno i dalu ymweliad eto a Llandyssul, a gwahoddwyd ef yno hefyd gan yr ysgrifenydd ac eraill, gan feddwl y buasai unrhyw gyfnewidiad yn llesiol iddo. Daeth i lawr yn nechreu Tachwedd, a chan ei fod yn awyddus am rywbeth i'w wneud bu yn ysgrifenu am beth amser yn swyddfa Mr. T. E. Jones, Marsiandwr, am ryw ddwy neu dair o oriau bob dydd, a thua diwedd mis Ionawr daeth am ddwy awr bob dydd i gynhorthwyo'r ysgrifenydd yn yr ysgol, ac ymddangosai er ei fawr wendid i gael pleser mawr yn y gwaith o ddysgu. Ond pallu yn fuan wnaeth y nerth. Cyn diwedd Chwefror talodd ei ymweliad olaf a'r ysgol byth i ddychwelyd mwy. Arosai yn yr hen letty, lle y buasai gynt am dros dair blynedd, a derbyniodd lawer iawn o dynerwch oddiwrth Mr. Evan Evans a Mrs. Evans, Charles Street. Darfyddodd allu myned allan; cyfyngwyd ef i'w ystafell yn gyntaf, ac yno i'w wely. Yr oedd yn rhy wan erbyn hyn i ddychwelyd adref, a daeth ei fam i lawr i weini arno. Yr oedd trwy y cwbl yn llawn ymofyniad ac o ddymuniad i wybod helyntion y dydd. Yn ystod yr arosiad diweddaf

hwn yn Llandyssul, darllenodd y ddwy gyfrol o'r argraffiad diweddaf o Strauss, rhanau o Emerson, a gweithiau eraill. Yr oedd yn ymostyngol ac amyneddgar yn ei gystudd diweddaf, ac nid arferai gyfeirio at y cyfnewidiad y rhaid y gwyddai ei fod gerllaw. Amlygai serch cryf at ei rieni ac aelodau eraill y teulu yn y rhagolwg ar ymadael â hwy. Nos Sul cyn ei farwolaeth yr oedd yn boenus ond tawel iawn, a phan ofynodd yr ysgrifenydd iddo pa fodd y teimlai, "*I am very easy but very weak*" (yr wyf yn esmwyth iawn, ond yn wan iawn) oedd ei atebiad, a dyma'r geiriau olaf a glywodd ef o enau ei hen ysgolhaig anwyl. Nos dranoeth darfyddodd deimlo unrhyw wendid a llesgedd, ac ymollyngodd i'r fro dawel lle na ddywed yr un o'r preswylwyr, claf ydwyf. Fel hyn y bu farw y cyfaill ieuanc gobeithiol hwn yn bump ar hugain a haner mlwydd oed, yn yr ystafell fechan lle y treuliasai lawer ddiwrnod a llawer noswaith i ddilyn ei efrydiaethau caled, ychydig o flynyddoedd cyn hyny.

Cafodd angladd luosog a pharchus y dydd Iau canlynol. Gweinyddodd yr ysgrifenydd yn y tŷ yn Llandyssul, ac ar lan y bedd ym mynwent Pantydefaid; a'r Parch. John Davies, Alltyblacca, yn y Tŷ Cwrdd. Traddodwyd y bregeth angladdol Ebrill 7fed, yn Nghapel-y-Fadfa, yr eglwys lle ei magwyd, ac i'r hon y buasai yn ddiau, pe y cawsai oes hwy yn addurn dysglaer; ond er iddo farw mor ieuanc mae ei goffadwriaeth yn fendigedig yn yr eglwys a'r gymydogaeth. Y testyn a ddewisodd yr ysgrifenydd oedd 2 Tim. ii. 22, "Chwantau ieuenctyd, ffo oddiwrthynt." Amlhau yn ein cynulleidfaoedd a wnelo dynion ieuainc o ddelw benderfynol, wrol, gywir, ac ymdrechgar Evan Thomas. Dywedai cyfaill, yn awr o America, a'i hadwaenai yn dda, am dano mewn llythyr at dad y trancedig. "Nid wyf yn cofio i mi fod yn nghyfeillach neb pregethwr ieuanc, a mwy, os cymmaint, arwyddion arno ei fod yn ofni Duw ac yn cilio oddiwrth ddrwg, ac am wneud da i'r aelod goreu."

WILLIAM THOMAS.

Bu Farw.

MARY GRIFFITHS.—Awst 7fed, 1872, bu farw, Mary Griffiths, gwraig Lewis Griffiths, Tiler, Trecynon, Aberdâr, yn 63 oed. Cafodd ei chystuddio am rai misoedd, a dyoddefodd yn amyneddgar, gan gydnabod yn ddiameu mai ewyllys Duw oedd oreu; a bu farw mewn llawn hyder ffydd yn ei Chrewr doeth a daionus, fod pob peth o'i law ef yn gweithio er dwyn oddiamgylch dedwyddwch ei blant yn y byd hwn, a'r hwn a ddaw. Y Sadwrn canlynol daeth lluaws yn nghyd i'w hebrwng i "dy ei hir gartref," ac awd i'r Hen Dy Cwrdd, pryd y pregethodd y gweinidog Mr. Jones, yn dra phwrpasol ar yr amgylchiad; yna hebryngwyd y trancedig tua'r Gladdfa Newydd. Gadawodd ar ei hol hen wr parchus, a thri o blant yma, a thri yn Awstralia, a diau fod ei marwolaeth yn golled anadferol iddynt. Ond bydded iddynt ymgysuro yn addewidion Efengyl Crist, a chredu o'r galon fod y cwbl oll yn deilliaw o law Duw, er daioni amserol a thragwyddol.

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, HEOL-Y-BRENIN, CAERFYRDDIN.